



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2017 Rhif 691 (Cy. 163)

2017 No. 691 (W. 163)

**IECHYD PLANHIGION,
CYMRU**

PLANT HEALTH, WALES

HADAU, CYMRU

SEEDS, WALES

**Rheoliadau Marchnata Planhigion
Ffrwythau a Deunyddiau Lluosogi
(Cymru) 2017**

**The Marketing of Fruit Plant and
Propagating Material (Wales)
Regulations 2017**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys yng Nghymru, yn parhau i weithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 2008/90/EC ar farchnata deunyddiau lluosogi planhigion ffrwythau a phlanhigion ffrwythau a fwriedir ar gyfer cynhyrchu ffrwythau (OJ Rhif L 267, 8.10.2008, t. 8). Maent hefyd yn gweithredu—

These Regulations, which apply in Wales, continue to implement Council Directive 2008/90/EC on the marketing of fruit plant propagating material and fruit plants intended for fruit production (OJ No L 267, 8.10.2008, p. 8). They also implement—

Cyfarwyddeb Weithredu'r Comisiwn 2014/96/EU ar y gofynion ar gyfer labelu, selio a phecynnu deunyddiau lluosogi planhigion ffrwythau a phlanhigion ffrwythau a fwriedir ar gyfer cynhyrchu ffrwythau, sydd o fewn cwrmpas Cyfarwyddeb y Cyngor 2008/90/EC (OJ L 298, 16.10.2014, t. 12);

Commission Implementing Directive 2014/96/EU on the requirements for the labelling, sealing and packaging of fruit plant propagating material and fruit plants intended for fruit production, falling within the scope of Council Directive 2008/90/EC (OJ L 298, 16.10.2014, p. 12);

Cyfarwyddeb Weithredu'r Comisiwn 2014/97/EU sy'n gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 2008/90/EC o ran cofrestru cyflenwyr ac amrywogaethau a'r rhestr gyffredin o amrywogaethau (OJ L 298, 16.10.2014, t. 16);

Commission Implementing Directive 2014/97/EU implementing Council Directive 2008/90/EC as regards the registration of suppliers and of varieties and the common list of varieties (OJ L 298, 16.10.2014, p. 16);

Cyfarwyddeb Weithredu'r Comisiwn 2014/98/EU sy'n gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 2008/90/EC o ran gofynion penodol mewn perthynas â genws a rhywogaeth planhigion ffrwythau y cyfeirir atynt yn Atodiad I iddi, gofynion penodol sydd i'w bodloni gan gyflenwyr a rheolau manwl sy'n ymwneud ag arolygiadau swyddogol (OJ Rhif L 298, 16.10.2014, t. 22).

Commission Implementing Directive 2014/98/EU implementing Council Directive 2008/90/EC as regards specific requirements for the genus and species of fruit plants referred to in Annex I thereto, specific requirements to be met by suppliers and detailed rules concerning official inspections (OJ No L 298, 16.10.2014, p. 22).

Maent yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Marchnata Deunyddiau Planhigion Ffrwythau (O.S. 2010/2079).

Mae Rhan 1 o'r Rheoliadau yn rhagarweiniol. Nodir y planhigion ffrwythau a'r deunyddiau lluosogi (deunyddiau planhigion) y mae'r Rheoliadau yn gymwys iddynt yn rheoliad 4 ac yn Atodlen 3.

Mae Rhan 2 yn cynnwys gofynion ar gyfer marchnata deunyddiau planhigion (rheoliad 5). Er mwyn cael eu marchnata, rhaid i ddeunyddiau planhigion gydymffurfio â gofynion a nodir ar gyfer ardystio (rheoliad 9 ac Atodlen 5) a pheycynnu, selio a labelu (rheoliad 10 ac Atodlen 2). Rhaid i ddeunyddiau planhigion fod wedi eu cofrestru, neu fod yn y broses o gael eu cofrestru (Atodlen 4), a rhaid bod hawliau amrywogaeth planhigion wedi eu rhoi iddynt, neu gais wedi ei wneud amdanynt (rheoliad 7). Rhaid i ddeunyddiau CAC gydymffurfio â gofynion a nodir yn Atodlen 1 a rhaid i ddogfen y cyflenwr fynd gyda hwy (Atodlen 2). Mae rheoliad 4 yn nodi eithriadau i'r gofynion cyffredinol hyn.

Mae Rhan 3 yn ei gwneud yn ofynnol cofrestru cyflenwyr (rheoliad 11) a chynnal cofrestr o gyflenwyr (rheoliad 13). Mae'n ofynnol i gyflenwyr fonitro'r broses o gynhyrchu deunyddiau planhigion (rheoliad 14) a chadw cofnodion (rheoliad 15).

Mae Rhan 4 yn ymdrin â gorfodi'r Rheoliadau hyn ac yn nodi pwerau arolygwyr, gan gynnwys pŵer i gyflwyno hysbysiad i unrhyw berson i'w gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw ddarparu gwybodaeth, a phŵer i wahardd symud deunyddiau planhigion yr amheuir eu bod yn methu â chydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Mae gan arolygydd bŵer hefyd i gyflwyno hysbysiad i unrhyw berson sy'n torri'r Rheoliadau hyn i'w gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw gydymffurfio â'r Rheoliadau neu i wahardd y person hwnnw rhag gweithredu'n groes iddynt. O dan reoliad 24(1) mae person sy'n methu â chydymffurfio ag unrhyw hysbysiad o'r fath neu'n methu â rhoi cymorth i'r arolygydd yn euog o drosedd. O dan reoliad 24(2) mae person sy'n euog o drosedd o dan y Rheoliadau yn atebol, o'i euogfarnu'n ddiannod, i ddirwy nad yw'n fwy na lefel 3 ar y raddfa safonol.

Mae Rhan 5 yn nodi darpariaethau gweinyddol gan gynnwys trefniadau ar gyfer mesurau swyddogol (rheoliad 27), a darpariaeth drosiannol (rheoliad 28).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal aseiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

They revoke and replace the Marketing of Fruit Plant Material Regulations (S.I. 2010/2079).

Part 1 of the Regulations is introductory. The fruit plants and propagating material (plant material) to which the Regulations apply is set out in regulation 4 and Schedule 3.

Part 2 contains requirements for marketing plant material (regulation 5). In order to be marketed, plant material must comply with requirements set out for certification (regulation 9 and Schedule 5) and packaging, sealing and labelling (regulation 10 and Schedule 2). Plant material must be, or be in the process of being, registered (Schedule 4) and have been granted, or an application made for, plant variety rights (regulation 7). CAC material must comply with requirements set out in Schedule 1 and be accompanied by a supplier's document (Schedule 2). Regulation 4 sets out exceptions to these general requirements.

Part 3 requires the registration of suppliers (regulation 11) and a register of suppliers (regulation 13). Suppliers are required to monitor the production of plant material (regulation 14) and keep records (regulation 15).

Part 4 deals with the enforcement of these Regulations and sets out inspectors' powers, including a power to serve a notice on any person to require that person to provide information and a power to prohibit the movement of plant material suspected of failing to comply with these Regulations. An inspector also has a power to serve a notice on any person acting in contravention of these Regulations to require that person to comply with the Regulations or to prohibit that person from acting in breach of them. Under regulation 24(1) a person who fails to comply with any such notice or to give assistance to the inspector is guilty of an offence. Under regulation 24(2) a person guilty of an offence under the Regulations is liable on summary conviction to a fine not exceeding level 3 on the standard scale.

Part 5 sets out administrative provisions including arrangements for official measures (regulation 27) and a transitional provision (regulation 28).

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

2017 Rhif 691 (Cy. 163)

2017 No. 691 (W. 163)

**IECHYD PLANHIGION,
CYMRU**

PLANT HEALTH, WALES

HADAU, CYMRU

SEEDS, WALES

Rheoliadau Marchnata Planhigion
Ffrwythau a Deunyddiau Lluosogi
(Cymru) 2017

The Marketing of Fruit Plant and
Propagating Material (Wales)
Regulations 2017

Gwnaed 14 Mehefin 2017

Made 14 June 2017

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru* 16 Mehefin 2017

Laid before the National Assembly for Wales
16 June 2017

Yn dod i rym 19 Mehefin 2017

Coming into force 19 June 2017

CYNNWYS

CONTENTS

RHAN 1

PART 1

Rhagarweiniad

Introduction

1. Enwi, cychwyn a chymhwyso
2. Dehongli: cyffredinol
3. Dehongli: Cyfarwyddebau
4. Deunyddiau planhigion y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddynt

1. Title, commencement, and application
2. Interpretation: general
3. Interpretation: Directives
4. Plant material to which these Regulations apply

RHAN 2

PART 2

Marchnata Deunyddiau Planhigion

Marketing of Plant Material

5. Marchnata deunyddiau planhigion
6. Eithriadau
7. Amrywogaethau y caniateir eu marchnata
8. Cyfeiriadau at amrywogaeth deunyddiau planhigion
9. Ardystio deunyddiau planhigion
10. Labelu, selio a phe cynnu deunyddiau planhigion ardystiedig

5. Marketing of plant material
6. Exceptions
7. Varieties that may be marketed
8. References to variety of plant material
9. Certification of plant material
10. Labelling, sealing and packaging of certified plant material

RHAN 3
Cyflenwyr

11. Cofrestru cyflenwyr
12. Apelau
13. Cofrestr o gyflenwyr
14. Cyflenwyr: cynllun i nodi ac i fonitro proses gynhyrchu
15. Cyflenwyr: cadw cofnodion

RHAN 4
Gorfodi

16. Arolygwyr
17. Mynd ar dir ac i fangroedd a'u harolygu
18. Chwilio ac archwilio eitemau ar dir ac mewn mangroedd
19. Hysbysiad gwybodaeth
20. Hysbysiad gwahardd symud
21. Hysbysiad gorfodi a gwahardd
22. Apelau yn erbyn hysbysiadau
23. Cydymffurfio â hysbysiadau
24. Troseddau a chosbau
25. Troseddau gan gyrrff corfforaethol

RHAN 5
Gweinyddu a dirymiadau

26. Hysbysiadau ac awdurdodiadau
27. Trefniadau ar gyfer mesurau swyddogol
28. Darpariaeth drosiannol
29. Dirymu

ATODLEN 1 — Deunyddiau CAC
ATODLEN 2 — Labeli swyddogol a dogfennau'r cyflenwr

RHAN 1 — Labeli swyddogol
RHAN 2 — Dogfen y cyflenwr: deunyddiau CAC

ATODLEN 3 — Y genera a'r rhywogaethau y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddynt

PART 3
Suppliers

11. Registration of suppliers
12. Appeals
13. Register of suppliers
14. Suppliers: plan to identify and monitor production process
15. Suppliers: record keeping

PART 4
Enforcement

16. Inspectors
17. Entry and inspection of land and premises
18. Search and examination of items on land and premises
19. Information notice
20. Prohibition on movement notice
21. Enforcement and prohibition notice
22. Appeals against notices
23. Compliance with notices
24. Offences and penalties
25. Offences by bodies corporate

PART 5
Administration and revocations

26. Notices and authorisations
27. Arrangements for official measures
28. Transitional provision
29. Revocation

SCHEDULE 1 — CAC material
SCHEDULE 2 — Official labels and supplier's documents

PART 1 — Official labels
PART 2 — Supplier's document: CAC material

SCHEDULE 3 — Genera and species to which these Regulations apply

ATODLEN 4	— Cofrestru amrywogaethau
ATODLEN 5	— Ardystio deunyddiau planhigion
RHAN 1	— Rhagarweiniad
RHAN 2	— Ardystio deunyddiau cyn-sylfaenol
RHAN 3	— Ardystio deunyddiau sylfaenol
RHAN 4	— Ardystio deunyddiau ardystiedig

SCHEDULE 4	— Registration of varieties
SCHEDULE 5	— Certification of plant material
PART 1	— Introduction
PART 2	— Certification of pre-basic material
PART 3	— Certification of basic material
PART 4	— Certification of certified material

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 a pharagraff 1A o Atodlen 2 iddi(1).

The Welsh Ministers make these Regulations in exercise of the powers conferred by section 2(2) of, and paragraph 1A of Schedule 2 to, the European Communities Act 1972(a).

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 mewn perthynas â'r polisi amaethyddol cyffredin(2).

The Welsh Ministers are designated for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972 in relation to the common agricultural policy(b).

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i unrhyw gyfeiriad at Atodiadau I i V i Gyfarwyddeb Weithredu'r Comisiwn 2014/98/EU(3) gael ei ddehongli fel cyfeiriad at yr Atodiadau hynny fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd.

These Regulations make provision for a purpose mentioned in section 2(2) of the European Communities Act 1972 and it appears to the Welsh Ministers that it is expedient for any reference to Annexes I to V to Commission Implementing Directive 2014/98/EU(c) to be construed as a reference to those Annexes as amended from time to time.

RHAN 1

Rhagarweiniad

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) 2017 a deuant i rym ar 19 Mehefin 2017.

PART 1

Introduction

Title, commencement and application

1.—(1) The title of these Regulations is the Marketing of Fruit Plant and Propagating Material (Wales) Regulations 2017 and they come into force on 19 June 2017.

(1) 1972 p. 68. Diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27(1)(a) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) a chan Ran 1 o'r Atodlen i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7). Mewnosodwyd paragraff 1A o Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 ac fe'i diwygiwyd gan Ran 1 o'r Atodlen i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 a chan O.S. 2007/1388.

(2) O.S. 2010/2690.

(3) Cyfarwyddeb Weithredu'r Comisiwn 2014/98/EU sy'n gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 2008/90/EC o ran gofynion penodol ar gyfer genws a rhywogaeth planhigion ffrwythau y cyfeirir atynt yn Atodiad I iddi, gofynion penodol sydd i'w bodloni gan gyflenwyr a rheolau manwl sy'n ymwneud ag arolygiadau swyddogol (OJ Rhif L 298, 16.10.2014, t. 22).

(a) 1972 c. 68. Section 2(2) was amended by section 27(1)(a) of the Legislative and Regulatory Reform Act 2006 (c. 51) and by Part 1 of the Schedule to the European Union (Amendment) Act 2008 (c. 7). Paragraph 1A of Schedule 2 was inserted by section 28 of the Legislative and Regulatory Reform Act 2006 and was amended by Part 1 of the Schedule to the European Union (Amendment) Act 2008 and S.I. 2007/1388.

(b) S.I. 2010/2690.

(c) Commission Implementing Directive 2014/98/EU implementing Council Directive 2008/90/EC as regards specific requirements for the genus and species of fruit plants referred to in Annex I thereto, specific requirements to be met by suppliers and detailed rules concerning official inspections (OJ No L 298, 16.10.2014, p. 22).

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli: cyffredinol

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “amrywogaeth” (“*variety*”) yw grŵp o blanhigion o fewn tacson botanegol unigol o'r rheng isaf sy'n wybyddus y gellir—

- (a) ei ddiffinio drwy fynegi'r priodoleddau sy'n deillio o genoteip penodol neu gyfuniad o genoteipiau;
- (b) gwahaniaethu rhyngddo ac unrhyw grŵp arall o blanhigion drwy fynegi o leiaf un o'r priodoleddau hynny; ac
- (c) ystyried ei fod yn endid yn sgil y ffaith y gellir ei luosogi yn ddigymffwrdd;

ystyr “archwiliad swyddogol” (“*official examination*”) yw archwiliad neu arolygiad a gynhelir gan arolygydd, gan gynnwys un a gynhelir ar ffurf sampl;

ystyr “ardystio” (“*certification*”) yw ardystio deunyddiau planhigion yn unol â rheoliad 9 ac mae “ardystiedig” (“*certified*”) i'w ddehongli yn unol â hynny;

ystyr “arolygiad gweledol” (“*visual inspection*”) yw archwiliad o blanhigion neu rannau o blanhigion mewn cyfleusterau, caeau a lotiau, gan arolygydd neu, pan fo'n briodol, y cyflenwr, gan ddefnyddio'r llygad noeth, lens, stereosgop neu ficrosgop;

ystyr “arolygydd” (“*inspector*”) yw person a benodir o dan reoliad 16;

ystyr “awdurdod cyfrifol” (“*responsible authority*”) yw'r awdurdod sy'n gyfrifol am ansawdd deunyddiau planhigion yn y wlad neu'r diriogaeth lle cynhyrchwyd y deunyddiau planhigion;

ystyr “cyflenwr” (“*supplier*”) yw unrhyw berson sy'n ymwneud yn broffesiynol ag atgynhyrchu, cynhyrchu, cadw, trin, mewnfario neu farchnata deunyddiau planhigion;

ystyr “deunyddiau ardystiedig” (“*certified material*”) yw unrhyw ddeunyddiau lluosogi neu blanhigion ffrwythau a fwriedir ar gyfer cynhyrchu planhigion ffrwythau—

- (a) mewn perthynas â deunyddiau lluosogi a phlanhigion ffrwythau a gynhyrchir yng Nghymru, a ardystiwyd fel deunyddiau ardystiedig yn unol â rheoliad 9;
- (b) mewn perthynas â deunyddiau lluosogi a phlanhigion ffrwythau a gynhyrchir y tu allan i Gymru, a ardystiwyd fel deunyddiau

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

Interpretation: general

2. In these Regulations—

“basic material” (“*deunyddiau sylfaenol*”) means propagating material intended for the production of certified material, which has been—

- (a) in relation to propagating material produced in Wales, certified as basic material in accordance with regulation 9;
- (b) in relation to propagating material produced outside Wales, certified as basic material by a responsible authority in accordance with Article 15 of Directive 2014/98/EU;

“basic mother plant” (“*planhigyn tarddiol sylfaenol*”) means a mother plant intended for the production of basic material;

“CAC material” (“*deunyddiau CAC*”) means—

- (a) in relation to propagating material and fruit plants produced in Wales, material and plants that meet the requirements for CAC material in Schedule 1;
- (b) in relation to propagating material and fruit plants produced outside Wales, material and plants that meet the requirements for CAC material in Article 23 of Directive 2014/98/EU;

“certification” (“*ardystio*”) means the certification of plant material in accordance with regulation 9 and “certified” (“*ardystiedig*”) is to be construed accordingly;

“certified material” (“*deunyddiau ardystiedig*”) means any propagating material or fruit plants intended for the production of fruit plants, which has been—

- (a) in relation to propagating material and fruit plants produced in Wales, certified as certified material in accordance with regulation 9;
- (b) in relation to propagating material and fruit plants produced outside Wales, certified as certified material by a responsible authority in accordance with Article 20 of Directive 2014/98/EU;

ardystiedig gan awdurdod cyfrifol yn unol ag Erthygl 20 o Gyfarwyddeb 2014/98/EU;

ystyr “deunyddiau CAC” (“*CAC material*”)—

- (a) mewn perthynas â deunyddiau lluosogi a phlanhigion ffrwythau a gynhyrchir yng Nghymru, yw deunyddiau a phlanhigion sy'n bodloni'r gofynion ar gyfer deunyddiau CAC yn Atodlen 1;
- (b) mewn perthynas â deunyddiau lluosogi a phlanhigion ffrwythau a gynhyrchir y tu allan i Gymru, yw deunyddiau a phlanhigion sy'n bodloni'r gofynion ar gyfer deunyddiau CAC yn Erthygl 23 o Gyfarwyddeb 2014/98/EU;

ystyr “deunyddiau cyn-sylfaenol” (“*pre-basic material*”) yw deunyddiau lluosogi a fwriedir ar gyfer cynhyrchu deunyddiau sylfaenol neu ardystiedig—

- (a) mewn perthynas â deunyddiau lluosogi a gynhyrchir yng Nghymru, a ardystiwyd fel deunyddiau cyn-sylfaenol yn unol â rheoliad 9;
- (b) mewn perthynas â deunyddiau lluosogi a gynhyrchir y tu allan i Gymru, a ardystiwyd fel deunyddiau cyn-sylfaenol gan awdurdod cyfrifol yn unol ag Erthyglau 3 neu 4 o Gyfarwyddeb 2014/98/EU;

ystyr “deunyddiau lluosogi” (“*propagating material*”) yw hadau, rhannau o blanhigion a phob deunydd planhigion, gan gynnwys gwreiddgyffion, a fwriedir ar gyfer lluosogi a chynhyrchu planhigion ffrwythau;

ystyr “deunyddiau planhigion” (“*plant material*”) yw'r planhigion a'r deunyddiau a ddisgrifir yn rheoliad 4;

ystyr “deunyddiau planhigion ardystiedig” (“*certified plant material*”) yw deunyddiau planhigion a ardystiwyd (yn ôl y digwydd) fel deunyddiau cyn-sylfaenol, deunyddiau sylfaenol neu ddeunyddiau ardystiedig;

ystyr “deunyddiau sylfaenol” (“*basic material*”) yw deunyddiau lluosogi a fwriedir ar gyfer cynhyrchu deunyddiau ardystiedig—

- (a) mewn perthynas â deunyddiau lluosogi a gynhyrchir yng Nghymru, a ardystiwyd fel deunyddiau sylfaenol yn unol â rheoliad 9;
- (b) mewn perthynas â deunyddiau lluosogi a gynhyrchir y tu allan i Gymru, a ardystiwyd fel deunyddiau sylfaenol gan awdurdod cyfrifol yn unol ag Erthygl 15 o Gyfarwyddeb 2014/98/EU;

“certified mother plant” (“*planhigyn tarddiol ardystiedig*”) means a mother plant intended for the production of certified material;

“certified plant material” (“*deunyddiau planhigion ardystiedig*”) means plant material that is certified (as the case may be) as pre-basic material, basic material or certified material;

“cryopreservation” (“*rhewgadw*”) means the maintenance of plant material by cooling to ultra-low temperatures in order to retain the viability of the material;

“defects” (“*diffygion*”) include injuries, discoloration, scar tissues or desiccation that affect the quality and usefulness of a mother plant or plant material as propagating material;

“fruit plant” (“*planhigyn ffrwythau*”) means a plant intended to be planted or replanted, after marketing;

“inspector” (“*arolygydd*”) means a person appointed under regulation 16;

“lot” (“*lot*”) means a number of units of a single commodity, identifiable by its homogeneity of composition and origin;

“micropropagation” (“*microluosogi*”) means the multiplication of plant material in order to produce a large number of plants, using in vitro culture of differentiated vegetative buds or differentiated vegetative meristems taken from a plant;

“mother plant” (“*planhigyn tarddiol*”) means an identified plant intended for propagation;

“official description” (“*disgrifiad swyddogol*”) means the description of a variety provided for—

- (a) registration as a variety; or
- (b) the grant of plant variety rights;

“official examination” (“*archwiliad swyddogol*”) means an examination or inspection conducted by an inspector, including one conducted by way of sample;

“official label” (“*label swyddogol*”) means—

- (a) for certified plant material produced in Wales, a label issued or approved in accordance with regulation 10(2);
- (b) for certified plant material produced outside Wales, a label issued or approved by the responsible authority in the country or territory where the plant material was produced and which meets, as appropriate to the plant material to which the label relates, the requirements of Article 2 of Directive 2014/96/EU;

mae “diffygion” (“defects”) yn cynnwys anafiadau, aflwiad, meinweoedd creithiol neu ddysychiad sy’n effeithio ar ansawdd a defnyddioldeb planhigyn tarddiol neu ddeunyddiau planhigion fel deunyddiau lluosogi;

ystyr “disgrifiad a gydnabyddir yn swyddogol” (“officially recognised description”) yw disgrifiad o nodweddion morffolegol allweddol sy’n galluogi’r amrywogaeth i gael ei hadnabod;

ystyr “disgrifiad swyddogol” (“official description”) yw’r disgrifiad o amrywogaeth a ddarperir er mwyn—

- (a) cofrestru fel amrywogaeth; neu
- (b) rhoi hawliau amrywogaeth planhigion;

ystyr “dogfen y cyflenwr” (“supplier’s document”) yw dogfen sy’n mynd gyda deunyddiau CAC ac sy’n bodloni gofynion Rhan 2 o Atodlen 2;

ystyr “hawliau amrywogaeth planhigion” (“plant variety rights”) yw hawliau a roddir o dan—

- (a) Rhan 1 o Ddeddf Amrywogaethau Planhigion 1997(1);
- (b) Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 2100/94 ar hawliau amrywogaeth planhigion y Gymuned(2); neu
- (c) deddfwriaeth ddomestig mewn gwledydd neu diriogaethau, ac eithrio’r rhai sy’n rhan o’r Deyrnas Unedig, sy’n diogelu amrywogaethau planhigion yn unol ag UPOV;

ystyr “label swyddogol” (“official label”)—

- (a) ar gyfer deunyddiau planhigion ardystiedig a gynhyrchir yng Nghymru, yw label a ddyroddwyd neu a gymeradwywyd yn unol â rheoliad 10(2);
- (b) ar gyfer deunyddiau planhigion ardystiedig a gynhyrchir y tu allan i Gymru, yw label a ddyroddwyd neu a gymeradwywyd gan yr awdurdod cyfrifol yn y wlad neu’r diriogaeth lle cynhyrchwyd y deunyddiau planhigion ac sy’n bodloni, fel y bo’n briodol i’r deunyddiau planhigion y mae’r label yn ymwneud â hwy, ofynion Erthygl 2 o Gyfarwyddeb 2014/96/EU;

ystyr “lot” (“lot”) yw nifer o unedau o un nwydd, y gellir ei adnabod drwy gydrywiaeth ei gyfansoddiad a’i darddiad;

“officially recognised description” (“disgrifiad a gydnabyddir yn swyddogol”) means a description of key morphological features that enable the variety to be identified;

“outside Wales” (“y tu allan i Gymru”) means any part of the United Kingdom other than Wales or any member State other than the United Kingdom;

“plant material” (“deunyddiau planhigion”) means the plants and materials described in regulation 4;

“plant variety rights” (“hawliau amrywogaeth planhigion”) means rights granted under—

- (a) Part 1 of the Plant Varieties Act 1997(a);
- (b) Council Regulation (EC) No 2100/94 on Community plant variety rights(b); or
- (c) domestic legislation in countries or territories, other than those forming part of the United Kingdom, that affords plant variety protection in accordance with UPOV;

“practically free from defects” (“rhydd rhag diffygion i bob pwrpas”) means that defects likely to impair the quality and usefulness of the propagating material or fruit plants, are present at a level equal to, or lower than, the level expected to result from good cultivating and handling practices, and that level is consistent with good cultivating and handling practices;

“pre-basic material” (“deunyddiau cyn-sylfaenol”) means propagating material intended for the production of basic or certified material, which has been—

- (a) in relation to propagating material produced in Wales, certified as pre-basic material in accordance with regulation 9;
- (b) in relation to propagating material produced outside Wales, certified as pre-basic material by a responsible authority in accordance with Articles 3 or 4 of Directive 2014/98/EU;

“pre-basic mother plant” (“planhigyn tarddiol cyn-sylfaenol”) means a mother plant intended for the production of pre-basic material;

(1) 1997 p. 66. Diwygiwyd Rhan I gan O.S. 2000/311, 2006/1261 a 2011/1043.

(2) OJ Rhif L 227, 1.9.1994, t. 1, fel y’i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 15/2008 (OJ L 8, 11.1.2008, t. 2).

(a) 1997 c. 66. Part I was amended by S.I. 2000/311, 2006/1261 and 2011/1043.

(b) OJ No L 227, 1.9.1994, p. 1 as last amended by Council Regulation (EC) No 15/2008 (OJ L 8, 11.1.2008, p. 2).

ystyr “microluosogi” (“*micropropagation*”) yw lluosogi deunyddiau planhigion er mwyn cynhyrchu nifer mawr o blanhigion, gan ddefnyddio meithriniaid in vitro o flagur llystyfol gwahaniaethol neu feristemmau llystyfol gwahaniaethol a gymerir o blanhigion;

ystyr “planhigyn ffrwythau” (“*fruit plant*”) yw planhigyn y bwriedir iddo gael ei blannu neu ei ailblannu, ar ôl ei farchnata;

ystyr “planhigyn tarddiol” (“*mother plant*”) yw planhigyn a adnabyddir a fwriedir ar gyfer ei luosogi;

ystyr “planhigyn tarddiol ardystiedig” (“*certified mother plant*”) yw planhigyn tarddiol a fwriedir ar gyfer cynhyrchu deunyddiau ardystiedig;

ystyr “planhigyn tarddiol cyn-sylfaenol” (“*pre-basic mother plant*”) yw planhigyn tarddiol a fwriedir ar gyfer cynhyrchu deunyddiau cyn-sylfaenol;

ystyr “planhigyn tarddiol sylfaenol” (“*basic mother plant*”) yw planhigyn tarddiol a fwriedir ar gyfer cynhyrchu deunyddiau sylfaenol;

ystyr “rhwgadw” (“*cryopreservation*”) yw cynnal deunyddiau planhigion drwy eu hoeri i dymereddau isel iawn er mwyn cadw’r deunyddiau’n hyfyw;

ystyr “rhydd rhag diffygion i bob pwrpas” (“*practically free from defects*”) yw bod diffygion sy’n debygol o amharu ar ansawdd a defnyddioldeb y deunyddiau lluosogi neu’r planhigion ffrwythau, yn bresennol ar lefel sy’n gyfwerth â’r lefel, neu’n is na’r lefel, y disgwylir iddi ddeillio o arferion tyfu a thrin da, a bod y lefel honno yn gyson ag arferion tyfu a thrin da;

ystyr “y tu allan i Gymru” (“*outside Wales*”) yw unrhyw ran o’r Deyrnas Unedig ac eithrio Cymru neu unrhyw Aelod-wladwriaeth ac eithrio’r Deyrnas Unedig;

ystyr “UPOV” (“*UPOV*”) yw’r Undeb Rhyngwladol dros Ddiogelu Amrywogaethau Newydd o Blanhigion(1).

“propagating material” (“*deunyddiau lluosogi*”) means seeds, parts of plants and all plant material, including rootstocks, intended for the propagation and production of fruit plants;

“responsible authority” (“*awdurdod cyfrifol*”) means the authority responsible for the quality of plant material in the country or territory where the plant material was produced;

“supplier” (“*cyflenwr*”) means any person involved professionally in the reproduction, production, preserving, treating, importing or marketing of plant material;

“supplier’s document” (“*dogfen y cyflenwr*”) means a document accompanying CAC material and which meets the requirements in Part 2 of Schedule 2;

“UPOV” (“*UPOV*”) means the International Union for the Protection of New Varieties of Plants(a);

“variety” (“*amrywogaeth*”) means a plant grouping within a single botanical taxon of the lowest known rank, which can be—

- (a) defined by the expression of the characteristics resulting from a given genotype or combination of genotypes;
- (b) distinguished from any other plant grouping by the expression of at least one of the said characteristics; and
- (c) considered as an entity in view of its ability to be propagated unchanged;

“visual inspection” (“*arolygiad gweledol*”) means the examination of plants or parts of plants in facilities, fields and lots, by an inspector or, where appropriate, the supplier, using the unaided eye, lens, stereoscope or microscope.

(1) Sefydlwyd yr Undeb Rhyngwladol dros Ddiogelu Amrywogaethau Newydd o Blanhigion (UPOV) gan y Confensiwn Rhyngwladol dros Ddiogelu Amrywogaethau Newydd o Blanhigion (“Confensiwn yr UPOV”). Mabwysiadwyd Confensiwn yr UPOV ar 2 Rhagfyr 1961 gan Gynhadledd Ddiplomyddol a gynhaliwyd ym Mharis, fe’i diwygiwyd ym 1972 a 1991 ac fe’i cadarnhawyd gan y Deyrnas Unedig ar 3 Rhagfyr 1998.

(a) The International Union for the Protection of New Varieties of Plants (UPOV) was established by the International Convention for the Protection of New Varieties of Plants (“UPOV Convention”). The UPOV Convention was adopted on 2nd December 1961 by a Diplomatic Conference held in Paris, revised in 1972 and 1991 and ratified by the United Kingdom on 3rd December 1998.

Dehongli: Cyfarwyddbau

3.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “Cyfarwydddeb 2000/29/EC” (“*Directive 2000/29/EC*”) yw Cyfarwydddeb y Cyngor 2000/29/EC ar fesurau diogelu rhag cyflwyno i'r Gymuned organeddau sy'n niweidiol i blanhigion neu gynhyrchion planhigion a rhag eu hymlediad o fewn y Gymuned(1);

ystyr “Cyfarwydddeb 2008/90/EC” (“*Directive 2008/90/EC*”) yw Cyfarwydddeb y Cyngor 2008/90/EC ar farchnata deunyddiau lluosogi planhigion ffrwythau a phlanhigion ffrwythau a fwriedir ar gyfer cynhyrchu ffrwythau(2);

ystyr “Cyfarwydddeb 2014/96/EU” (“*Directive 2014/96/EU*”) yw Cyfarwydddeb Weithredu'r Comisiwn 2014/96/EU ar y gofynion ar gyfer labelu, selio a phecynnu deunyddiau lluosogi planhigion ffrwythau a phlanhigion ffrwythau a fwriedir ar gyfer cynhyrchu ffrwythau, sydd o fewn cwmpas Cyfarwydddeb y Cyngor 2008/90/EC(3);

ystyr “Cyfarwydddeb 2014/97/EU” (“*Directive 2014/97/EU*”) yw Cyfarwydddeb Weithredu'r Comisiwn 2014/97/EU sy'n gweithredu Cyfarwydddeb y Cyngor 2008/90/EC o ran cofrestru cyflenwyr ac amrywogaethau a'r rhestr gyffredin o amrywogaethau(4);

ystyr “Cyfarwydddeb 2014/98/EU” (“*Directive 2014/98/EU*”) yw Cyfarwydddeb Weithredu'r Comisiwn 2014/98/EU sy'n gweithredu Cyfarwydddeb y Cyngor 2008/90/EC o ran gofynion penodol ar gyfer genws a rhywogaeth planhigion ffrwythau y cyfeirir atynt yn Atodiad I iddi, gofynion penodol sydd i'w bodloni gan gyflenwyr a rheolau manwl sy'n ymwneud ag arolygiadau swyddogol(5).

(2) Mae cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn at Atodiadau I, II, III, IV neu V i Gyfarwydddeb 2014/98/EU yn gyfeiriadau at yr Atodiad hwnnw fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.

Interpretation: Directives

3.—(1) In these Regulations—

“Directive 2000/29/EC” (“*Cyfarwydddeb 2000/29/EC*”) means Council Directive 2000/29/EC on protective measures against the introduction into the Community of organisms harmful to plants or plant products and against their spread within the Community(a);

“Directive 2008/90/EC” (“*Cyfarwydddeb 2008/90/EC*”) means Council Directive 2008/90/EC on the marketing of fruit plant propagating material and fruit plants intended for fruit production(b);

“Directive 2014/96/EU” (“*Cyfarwydddeb 2014/96/EU*”) means Commission Implementing Directive 2014/96/EU on the requirements for the labelling, sealing and packaging of fruit plant propagating material and fruit plants intended for fruit production, falling within the scope of Council Directive 2008/90/EC(c);

“Directive 2014/97/EU” (“*Cyfarwydddeb 2014/97/EU*”) means Commission Implementing Directive 2014/97/EU implementing Council Directive 2008/90/EC as regards the registration of suppliers and of varieties and the common list of varieties(d);

“Directive 2014/98/EU” (“*Cyfarwydddeb 2014/98/EU*”) means Commission Implementing Directive 2014/98/EU implementing Council Directive 2008/90/EC as regards specific requirements for the genus and species of fruit plants referred to in Annex I thereto, specific requirements to be met by suppliers and detailed rules concerning official inspections(e).

(2) References in these Regulations to Annexes I, II, III, IV or V to Directive 2014/98/EU are references to that Annex as amended from time to time.

(1) OJ Rhif L 169, 10.7.2000, t. 1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EU) 2016/2031 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L 317, 23.11.2016, t. 4).

(2) OJ Rhif L 267, 8.10.2008, t. 8; fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EU) Rhif 652/2014 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L 189, 27.6.2014, t. 1).

(3) OJ Rhif L 298, 16.10.2014, t. 12.

(4) OJ Rhif L 298, 16.10.2014, t. 16.

(5) OJ Rhif L 298, 16.10.2014, t. 22.

(a) OJ No L 169, 10.7.2000, p. 1 as last amended by Regulation (EU) 2016/2031 of the European Parliament of the Council (OJ No L 317, 23.11.2016, p. 4).

(b) OJ No L 267, 8.10.2008, p. 8; as last amended by Regulation (EU) No 652/2014 of the European Parliament and of the Council (OJ No L 189, 27.6.2014, p. 1).

(c) OJ No L 298, 16.10.2014, p. 12.

(d) OJ No L 298, 16.10.2014, p. 16.

(e) OJ No L 298, 16.10.2014, p. 22.

Deunyddiau planhigion y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddynt

4.—(1) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â phlanhigion ffrwythau a deunyddiau lluosogi o'r genera a'r rhywogaethau a restrir yn Atodlen 3 a'u cymysgrywiau.

(2) Maent hefyd yn gymwys mewn perthynas â rhannau o blanhigion, gan gynnwys gwreiddgyffion, o genera neu rywogaethau eraill a'u cymysgrywiau os yw, neu os bydd, deunyddiau o blanhigion ffrwythau a restrir yn Atodlen 3 (neu unrhyw gymysgryw o blanhigion ffrwythau o'r fath) yn cael eu himpio arnynt.

(3) Nid ydynt yn gymwys mewn perthynas â deunyddiau planhigion y bwriedir iddynt gael eu hallforio o Gymru i unrhyw wlad y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd ar yr amod bod y deunyddiau planhigion yn cael eu hadnabod felly ac yn cael eu hynysu'n ddigonol.

RHAN 2

Marchnata Deunyddiau Planhigion

Marchnata deunyddiau planhigion

5.—(1) Ni chaiff cyflenwr farchnata deunyddiau planhigion onid yw—

- (a) y cyflenwr wedi ei gofrestru yn unol â rheoliad 11; a
- (b) y deunyddiau planhigion yn bodloni'r gofynion yn mharagraff (2).

(2) Rhaid i'r deunyddiau planhigion—

- (a) bod yn ddeunyddiau planhigion ardystiedig neu'n ddeunyddiau CAC;
- (b) bod yn amrywogaeth y caniateir ei marchnata yn unol â rheoliad 7;
- (c) cael eu marchnata gan gyfeirio at yr amrywogaeth y mae'r deunyddiau planhigion yn perthyn iddi yn unol â rheoliad 8;
- (d) mewn perthynas â deunyddiau planhigion ardystiedig, cael eu labelu, eu selio a'u pecynnu yn unol â rheoliad 10; ac
- (e) mewn perthynas â deunyddiau CAC, mynd gyda dogfen y cyflenwr.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru awdurdodi marchnata deunyddiau planhigion o unrhyw wlad y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd os ydynt wedi eu bodloni bod y deunyddiau planhigion wedi eu cynhyrchu o dan amodau sy'n cyfateb i'r gofynion ar gyfer deunyddiau planhigion yn y Rheoliadau hyn.

Plant material to which these Regulations apply

4.—(1) These Regulations apply in relation to fruit plants and propagating material of the genera and species listed in Schedule 3 and their hybrids.

(2) They also apply in relation to parts of plants, including rootstocks, of other genera or species and their hybrids if material from fruit plants listed in Schedule 3 (or any hybrid of such fruit plants) is, or is to be, grafted on to them.

(3) They do not apply in relation to plant material intended for export from Wales to any country outside the European Union provided the plant material is identified as such and kept sufficiently isolated.

PART 2

Marketing of Plant Material

Marketing of plant material

5.—(1) A supplier may only market plant material if—

- (a) the supplier is registered in accordance with regulation 11; and
- (b) the plant material meets the requirements in paragraph (2).

(2) The plant material must be—

- (a) certified plant material or CAC material;
- (b) a variety that may be marketed in accordance with regulation 7;
- (c) marketed with a reference to the variety to which the plant material belongs in accordance with regulation 8;
- (d) in relation to certified plant material, labelled, sealed and packaged in accordance with regulation 10; and
- (e) in relation to CAC material, accompanied by a supplier's document.

(3) The Welsh Ministers may authorise the marketing of plant material from any country outside the European Union if satisfied the plant material has been produced under conditions equivalent to the requirements for plant material in these Regulations.

(4) Mae paragraff (3) yn peidio â chael effaith ar 31 Rhagfyr 2018.

Eithriadau

6. Nid yw rheoliad 5(1)(b) yn gymwys i farchnata deunyddiau planhigion a fwriedir ar gyfer—

- (a) treialon neu at ddibenion gwyddonol;
- (b) gwaith dethol;
- (c) mesurau sydd â'r nod o warchod amrywiaeth enetig.

Amrywogaethau y caniateir eu marchnata

7.—(1) Mae deunyddiau planhigion o amrywogaeth y caniateir ei marchnata os yw'r amrywogaeth yn bodloni un neu ragor o ofynion paragraff (2).

(2) Rhaid i'r amrywogaeth—

- (a) bod wedi cael hawliau amrywogaeth planhigion;
- (b) bod yn gofrestredig fel amrywogaeth;
- (c) bod yn destun cais am—
 - (i) hawliau amrywogaeth planhigion; neu
 - (ii) ei chofrestru fel amrywogaeth;
- (d) bod wedi ei marchnata cyn 30 Medi 2012 o fewn yr Undeb Ewropeaidd a bod â disgrifiad a gydnabyddir yn swyddogol; neu
- (e) mewn perthynas ag amrywogaethau sydd o ddim gwerth cynhenid o ran cynhyrchu cnydau masnachol sy'n cael eu marchnata o fewn y Deyrnas Unedig—
 - (i) bod â disgrifiad a gydnabyddir yn swyddogol; a
 - (ii) bod yn ddeunyddiau CAC.

(3) Rhaid i gyflenwr sy'n marchnata deunyddiau planhigion o amrywogaeth a ddisgrifir ym mharagraff (2)(e) sicrhau bod dogfen y cyflenwr yn mynd gyda'r deunyddiau planhigion, yn datgan eu bod yn cael eu marchnata yn unol ag ail baragraff Erthygl 7(2) o Gyfarwyddeb 2008/90/EC.

(4) Yn y rheoliad hwn, ystyr “cofrestredig fel amrywogaeth” (“*registered as a variety*”) (ac mae “cofrestru” (“*registration*”) i'w ddehongli yn unol â hynny) yw—

- (a) cofrestru fel amrywogaeth yng Nghymru yn unol ag Atodlen 4; neu
- (b) cofrestru fel amrywogaeth y tu allan i Gymru gan yr awdurdod cyfrifol yn y wlad neu'r diriogaeth yn unol ag Erthygl 4 o Gyfarwyddeb 2014/97/EU.

(4) Paragraph (3) ceases to have effect on 31 December 2018.

Exceptions

6. Regulation 5(1)(b) does not apply to the marketing of plant material intended for—

- (a) trials or scientific purposes;
- (b) selection work;
- (c) measures aimed at the conservation of genetic diversity.

Varieties that may be marketed

7.—(1) Plant material is of a variety that may be marketed if the variety fulfils one or more of the requirements of paragraph (2).

(2) The variety must—

- (a) have been granted plant variety rights;
- (b) be registered as a variety;
- (c) be the subject of an application for—
 - (i) plant variety rights; or
 - (ii) registration as a variety;
- (d) have been marketed prior to 30 September 2012 within the European Union and have an officially recognised description; or
- (e) in relation to varieties with no intrinsic value for commercial crop production being marketed within the United Kingdom—
 - (i) have an officially recognised description; and
 - (ii) be CAC material.

(3) A supplier who markets plant material of a variety described in paragraph (2)(e) must ensure the plant material is accompanied by a supplier's document stating that it is marketed in accordance with the second paragraph of Article 7(2) of Directive 2008/90/EC.

(4) In this regulation, “registered as a variety” (“*cofrestredig fel amrywogaeth*”) (and “registration” (“*cofrestru*”) is to be construed accordingly) means—

- (a) registration in Wales as a variety in accordance with Schedule 4; or
- (b) registration outside Wales as a variety by the responsible authority in the country or territory in accordance with Article 4 of Directive 2014/97/EU.

Cyfeiriadau at amrywogaeth deunyddiau planhigion

8. Caiff deunyddiau planhigion eu marchnata gan gyfeirio at eu hamrywogaeth, os cânt eu marchnata, mewn perthynas ag—

- (a) amrywogaeth o ddeunyddiau planhigion sy'n destun cais am roi hawliau amrywogaeth planhigion, drwy gyfeirio at gyfeirnod y bridiwr neu enw arfaethedig yr amrywogaeth;
- (b) amrywogaeth gofrestredig, drwy gyfeirio at ei henw cofrestredig;
- (c) amrywogaeth sy'n destun cais am gofrestrriad o'r fath, drwy gyfeirio at gyfeirnod y bridiwr neu enw arfaethedig yr amrywogaeth;
- (d) gwreiddgyffion nad ydynt yn perthyn i amrywogaeth, drwy gyfeirio at y rhywogaeth briodol neu'r cymysgryw rhyngrywiogaethol priodol.

Ardystio deunyddiau planhigion

9.—(1) Os bodlonir gofynion paragraff (2), rhaid i arolygydd—

- (a) ardystio bod deunyddiau planhigion a gynhyrchir yng Nghymru—
 - (i) yn ddeunyddiau cyn-sylfaenol;
 - (ii) yn ddeunyddiau sylfaenol; neu
 - (iii) yn ddeunyddiau ardystiedig;
- (b) dyroddi tystysgrif sy'n cadarnhau'r ardystiad (tystysgrif arolygu cnwd).

(2) Y gofynion yw y canfuwyd, mewn archwiliad swyddogol, fod y deunyddiau planhigion yn cydymffurfio â'r gofynion ardystio a nodir yn narpariaethau perthnasol Atodlen 5.

(3) Rhaid i gais am ardystio deunyddiau planhigion a gynhyrchir yng Nghymru gael ei wneud yn ysgrifenedig i Weinidogion Cymru a rhaid i unrhyw wybodaeth sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru fynd gydag ef.

(4) Mae label swyddogol a ddyroddir yn unol â'r Rheoliadau hyn mewn perthynas â deunyddiau planhigion ardystiedig yn dystiolaeth ddigonol fod arolygydd wedi ardystio bod deunyddiau planhigion y mae'r label swyddogol yn ymwneud â hwy yn ddeunyddiau planhigion ardystiedig.

Labelu, selio a pheycynnu deunyddiau planhigion ardystiedig

10.—(1) Rhaid i ddeunyddiau planhigion ardystiedig, a gaiff eu marchnata, gael eu labelu, eu selio a'u pecynnu yn unol â'r rheoliad hwn.

References to variety of plant material

8. Plant material is marketed with a reference to its variety if it is marketed, in relation to—

- (a) a variety of plant material that is the subject of an application for a grant of plant variety rights, by reference to the breeder's reference or the proposed name of the variety;
- (b) a registered variety, by reference to its registered name;
- (c) a variety that is the subject of an application for such registration, by reference to the breeders' reference or the proposed name of the variety;
- (d) rootstocks that do not belong to a variety, by reference to the appropriate species or interspecific hybrid.

Certification of plant material

9.—(1) If the requirements of paragraph (2) are satisfied, an inspector must—

- (a) certify plant material produced in Wales as being—
 - (i) pre-basic material;
 - (ii) basic material; or
 - (iii) certified material;
- (b) issue a certificate confirming certification (a crop inspection certificate).

(2) The requirements are that on official examination, the plant material has been found to comply with the requirements for certification set out in the relevant provisions of Schedule 5.

(3) An application for certification of plant material produced in Wales must be made in writing to the Welsh Ministers and must be accompanied by such information as the Welsh Ministers may require.

(4) An official label issued in accordance with these Regulations in relation to certified plant material is sufficient evidence that an inspector has certified the plant material to which the official label relates as being certified plant material.

Labelling, sealing and packaging of certified plant material

10.—(1) Certified plant material, which is marketed, must be labelled, sealed and packaged in accordance with this regulation.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi neu gymeradwyo label (label swyddogol) os yw'r label hwnnw yn bodloni gofynion Rhan 1 o Atodlen 2.

(3) Ond nid oes angen i label a ddefnyddir wrth gyflenwi deunyddiau planhigion ardystiedig i'w manwerthu i ddefnyddiwr olaf nad yw'n broffesiynolyn, ond gynnwys gwybodaeth briodol am y cynnyrch, gan gynnwys enw'r awdurdod cyfrifol, enw neu rif cofrestru'r cyflenwr, yr enw botanegol ac enw'r amrywogaeth.

(4) Rhaid i label swyddogol fod ynghlwm wrth y deunyddiau planhigion ardystiedig.

(5) Pan fo deunyddiau planhigion ardystiedig yn rhan o'r un lot ac yn cael eu marchnata mewn pecyn, bwndel neu gynhwysydd, rhaid rhoi label swyddogol ynghlwm wrth y pecyn, y bwndel neu'r cynhwysydd hwnnw.

(6) Nid yw paragraffau (4) a (5) yn gymwys pan fo pasbort planhigion a ddyroddir yn unol â Chyfarwyddeb 2000/29/EC, sy'n cynnwys yr wybodaeth ym mharagraff 4 o Atodlen 2, yn mynd gyda deunyddiau planhigion ardystiedig.

(7) Ni chaiff cyflenwr farchnata deunyddiau planhigion ardystiedig mewn lotiau o ddau neu ragor o blanhigion neu rannau o blanhigion oni bai bod y lotiau hynny yn ddigon cydryw ac wedi eu pecynnu'n briodol.

(8) At ddibenion paragraff (7), ystyr "wedi eu pecynnu'n briodol" yw bod y planhigion neu'r rhannau o blanhigion—

- (a) mewn pecyn neu gynhwysydd sydd wedi ei selio mewn modd sy'n atal y pecyn neu'r cynhwysydd rhag cael ei agor heb ddifrodi'r caead neu wneud y label swyddogol yn annilys; neu
- (b) yn rhan o fwndel sydd wedi ei glymu yn y fath fodd fel na ellir gwahanu'r planhigion neu'r rhannau o blanhigion sy'n rhan o'r bwndel heb ddifrodi'r cwllwm neu'r clymau.

RHAN 3

Cyflenwyr

Cofrestru cyflenwyr

11.—(1) Ni chaiff cyflenwr farchnata deunyddiau planhigion oni bai ei fod wedi ei gofrestru fel cyflenwr gan Weinidogion Cymru yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Ond nid yw paragraff (1) yn gymwys i gyflenwyr nad ydynt ond yn marchnata deunyddiau planhigion i ddefnyddwyr terfynol nad ydynt yn broffesiynolion.

(2) The Welsh Ministers must issue or approve a label (an official label) if that label meets the requirements in Part 1 of Schedule 2.

(3) But a label used in the retail supply of certified plant material to a non-professional final consumer need only contain appropriate product information, including the name of the responsible authority, the supplier's name or registration number, the botanical name and variety denomination.

(4) An official label must be affixed to the certified plant material.

(5) Where certified plant material forms part of the same lot and is being marketed in a package, bundle or container, an official label must be affixed to that package, bundle or container.

(6) Paragraphs (4) and (5) do not apply where certified plant material is accompanied by a plant passport issued in accordance with Directive 2000/29/EC, which contains the information in paragraph 4 of Schedule 2.

(7) A supplier must not market certified plant material in lots of two or more plants or parts of plants unless those lots are sufficiently homogeneous and are properly packaged.

(8) For the purposes of paragraph (7), "properly packaged" means the plants or parts of plants—

- (a) are in a package or container that is sealed in a way that prevents the package or container from being opened without damaging the closure or rendering the official label invalid; or
- (b) form part of a bundle that is tied in such a way that the plants or parts of plants forming part of the bundle cannot be separated without damaging the tie or ties.

PART 3

Suppliers

Registration of suppliers

11.—(1) A supplier must not market plant material unless registered as a supplier by the Welsh Ministers in accordance with this regulation.

(2) But paragraph (1) does not apply to suppliers who are only marketing plant material to non-professional final consumers.

(3) Rhaid i gais am gofrestriad gael ei wneud yn ysgrifenedig i Weinidogion Cymru a rhaid i unrhyw wybodaeth sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru fynd gydag ef.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru gofrestru cyflenwr os ydynt wedi eu bodloni y bydd y person hwnnw yn cydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r cyflenwr—

- (a) am benderfyniad Gweinidogion Cymru o dan baragraff (4) o fewn 28 o ddiwrnodau i wneud y penderfyniad hwnnw; a
- (b) pan benderfynir cofrestru'r cyflenwr, am ei rif cofrestru.

(6) Mae person a oedd, yn union cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym, yn gofrestredig fel cyflenwr yn unol â rheoliad 7 o Reoliadau Marchnata Deunyddiau Planhigion Ffrwythau 2010(1) yn gofrestredig at ddibenion y rheoliad hwn.

(7) Mae person sy'n gofrestredig fel masnachwr planhigion yn unol â Rhan 4 o Orchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006(2) yn gofrestredig at ddibenion y rheoliad hwn.

(8) Caiff Gweinidogion Cymru wneud y canlynol, drwy hysbysiad—

- (a) addasu cofrestriad cyflenwr; neu
- (b) dirymu neu atal dros dro gofrestriad cyflenwr os ydynt wedi eu bodloni—
 - (i) bod y cyflenwr wedi methu â chydymffurfio ag unrhyw un neu ragor o ddarpariaethau'r Rheoliadau hyn; neu
 - (ii) nad yw'r cyflenwr yn gweithredu fel cyflenwr mwyach.

(9) Oni bai bod Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo fel arall, mae dirymiad neu ataliad dros dro o dan baragraff (8)(b) yn cael effaith ar unwaith ac yn parhau i gael effaith oni bai bod y cofrestriad yn cael ei adfer.

Apelau

12.—(1) Caiff cyflenwr a dramgwyddir gan benderfyniad Gweinidogion Cymru i beidio â'i gofrestru o dan reoliad 11(4) neu i addasu, i ddirymu neu i atal dros dro ei gofrestriad o dan reoliad 11(8), o fewn 21 o ddiwrnodau i gael ei hysbysu am y penderfyniad, apelio yn ei erbyn i berson a benodir at y diben gan Weinidogion Cymru.

(3) An application for registration must be made in writing to the Welsh Ministers and must be accompanied by such information as the Welsh Ministers may require.

(4) The Welsh Ministers must register a supplier if satisfied that person will comply with these Regulations.

(5) The Welsh Ministers must inform the supplier—

- (a) of the Welsh Ministers' decision under paragraph (4) within 28 days of making it; and
- (b) where the decision is to register the supplier, of their registration number.

(6) A person who, immediately before the coming into force of these Regulations, was registered as a supplier in accordance with regulation 7 of the Marketing of Fruit Plant Material Regulations 2010(a) is registered for the purposes of this regulation.

(7) A person who is registered as a plant trader in accordance with Part 4 of the Plant Health (Wales) Order 2006(b) is registered for the purposes of this regulation.

(8) The Welsh Ministers may, by notice—

- (a) modify a supplier's registration; or
- (b) revoke or suspend a supplier's registration if satisfied the supplier—
 - (i) has failed to comply with any provision of these Regulations; or
 - (ii) is no longer acting as a supplier.

(9) Unless the Welsh Ministers otherwise direct, a revocation or suspension under paragraph (8)(b) has immediate effect and continues in effect unless the registration is reinstated.

Appeals

12.—(1) A supplier aggrieved by a decision of the Welsh Ministers not to register them under regulation 11(4) or to modify, revoke or suspend their registration under regulation 11(8) may, within 21 days of being notified of the decision, appeal against it to a person appointed for the purpose by the Welsh Ministers.

(1) O.S. 2010/2079.

(2) O.S. 2006/1643 (Cy. 158).

(a) S.I. 2010/2079.

(b) S.I. 2006/1643 (W. 158).

(2) Rhaid i'r person a benodir ystyried yr apêl ac unrhyw sylwadau a gyflwynir gan Weinidogion Cymru ac, o fewn cyfnod o 21 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'n cael yr apêl neu'r sylwadau (pa un bynnag sydd hwyraf) adrodd yn ysgrifenedig, gan argymhell camau gweithredu, i Weinidogion Cymru.

(3) Wedi hynny rhaid i Weinidogion Cymru wneud penderfyniad terfynol a hysbysu'r apelydd, a rhoi'r rhesymau dros wneud y penderfyniad hwnnw.

Cofrestr o gyflenwyr

13.—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru gynnal cofrestr o gyflenwyr cofrestredig.

(2) Rhaid i'r gofrestr gynnwys yr wybodaeth a ganlyn—

- (a) enw, cyfeiriad a manylion cyswllt y cyflenwr;
- (b) pa rai o blith y gweithgareddau a restrir ym mharagraff (3) y mae'r cyflenwr yn ymwneud â hwy;
- (c) y genera neu'r rhywogaethau o dan sylw;
- (d) cyfeiriad y fangre lle cyflawnir y gweithgaredd;
- (e) rhif cofrestru'r cyflenwr.

(3) At ddibenion paragraff (2)(b), y gweithgareddau yw atgynhyrchu, cynhyrchu, cadw, trin, mewnfario neu farchnata deunyddiau planhigion.

(4) Rhaid i gyflenwr hysbysu Gweinidogion Cymru cyn gynted ag y bo'n ymarferol am unrhyw newid i'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan baragraff (2)(a) i (d).

(5) Caiff Gweinidogion Cymru gyhoeddi'r gofrestr, neu unrhyw ran ohoni, yn ôl disgrisiwn Gweinidogion Cymru.

Cyflenwyr: cynllun i nodi ac i fonitro proses gynhyrchu

14.—(1) Rhaid i gyflenwr sy'n ymwneud â chynhyrchu deunyddiau planhigion fod â chynllun yn ei le i nodi ac i fonitro pwyntiau critigol wrth gynhyrchu'r deunyddiau planhigion hynny.

(2) Rhaid i'r cynllun gynnwys manylion ynghylch—

- (a) lleoliad y planhigion a'u niferoedd;
- (b) amseru'r tyfu;
- (c) gweithrediadau lluosogi;
- (d) gweithrediadau pecynnu, storio a chludo.

Cyflenwyr: cadw cofnodion

15.—(1) Rhaid i gyflenwr gadw cofnodion o—

(2) The appointed person must consider the appeal and any representations made by the Welsh Ministers, and, within a period of 21 days beginning with the day on which they receive the appeal or representations (whichever is the later), report in writing with a recommended course of action to the Welsh Ministers.

(3) The Welsh Ministers must then make a final decision and notify the appellant, together with the reasons for that decision.

Register of suppliers

13.—(1) The Welsh Ministers must maintain a register of registered suppliers.

(2) The register must contain the following information—

- (a) the name, address and contact details of the supplier;
- (b) which of the activities listed in paragraph (3) the supplier is involved in;
- (c) the genera or species concerned;
- (d) the address of the premises where the activity is carried out;
- (e) the supplier's registration number.

(3) For the purposes of paragraph (2)(b), the activities are the reproduction, production, preserving, treating, importing or marketing of plant material.

(4) A supplier must notify the Welsh Ministers as soon as practicable of any change to the information required under paragraph (2)(a) to (d).

(5) The Welsh Ministers may publish the register, or any part of it, at the Welsh Ministers' discretion.

Suppliers: plan to identify and monitor production process

14.—(1) A supplier involved in the production of plant material must have in place a plan to identify and monitor critical points in the production of that plant material.

(2) The plan must include details on—

- (a) the location and number of plants;
- (b) the timing of cultivation;
- (c) propagating operations;
- (d) packaging, storage and transportation operations.

Suppliers: record keeping

15.—(1) A supplier must keep records of—

- (a) unrhyw werthiant neu bryniant deunyddiau planhigion;
- (b) pob danfoniad deunyddiau planhigion i fangre'r cyflenwr ac ohoni;
- (c) unrhyw fonitro ar bwyntiau critigol wrth gynhyrchu'r deunyddiau planhigion hynny;
- (d) cyfansoddiad a tharddiad unrhyw ddeunyddiau planhigion o darddiadau gwahanol a gymysgir gan y cyflenwr wrth eu pecynnu, eu storio neu eu cludo neu wrth eu danfon;
- (e) yr holl ddeunyddiau planhigion sy'n cael eu cynhyrchu yn ei fangre;
- (f) arolygiadau maes a gwaith samplu a phrofi a gynhelir mewn perthynas â deunyddiau planhigion o dan ei reolaeth; ac
- (g) unrhyw achosion o'r canlynol yn ei fangre—
 - (i) unrhyw un neu ragor o'r organeddau neu'r clefydau a restrir yn Rhan A o Atodiad I, ac yn Atodiad II, i Gyfarwyddeb 2014/98/EU;
 - (ii) deunyddiau planhigion sy'n uwch na'r lefelau goddefiant yng ngholofn berthnasol y tabl yn Rhan B o Atodiad I i Gyfarwyddeb 2014/98/EU; a
 - (iii) organedd niweidiol a restrir yn yr Atodiadau i Gyfarwyddeb 2000/29/EC.

(2) Rhaid i'r cofnodion y cyfeirir atynt yn y rheoliad hwn gael eu cadw am 3 blynedd o leiaf.

- (a) any sales or purchases of plant material;
- (b) all deliveries of plant material to and from the supplier's premises;
- (c) any monitoring of critical points in the production of that plant material;
- (d) the composition and origin of any plant material of different origins mixed by the supplier during packaging, storage or transport or at delivery;
- (e) all plant material under production on their premises;
- (f) field inspections and sampling and testing undertaken in relation to plant material under their control; and
- (g) any occurrence on their premises of—
 - (i) any of the organisms or diseases listed in Part A of Annex I, and in Annex II, to Directive 2014/98/EU;
 - (ii) plant material that exceeds the tolerance levels in the relevant column of the table in Part B of Annex I to Directive 2014/98/EU; and
 - (iii) a harmful organism listed in the Annexes to Directive 2000/29/EC.

(2) The records referred to in this regulation must be kept for a minimum of 3 years.

RHAN 4

Gorfodi

Arolygwyr

16.—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru benodi arolygwyr at ddibenion y Rheoliadau hyn.

(2) Mae gan arolygydd y pwerau a nodir yn y Rhan hon o'r Rheoliadau.

Mynd ar dir ac i fangreoedd a'u harolygu

17.—(1) At ddibenion gorfodi'r Rheoliadau hyn, mae gan arolygydd y pŵer, drwy ddangos awdurdodiad wedi ei ddilysu'n briodol, i fynd ar unrhyw dir neu i unrhyw fangre (ac eithrio unrhyw fangre a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel tŷ annedd preifat) ar unrhyw adeg resymol drwy roi hysbysiad rhesymol.

(2) Ond nid yw'r gofyniad i roi hysbysiad yn angenrheidiol—

PART 4

Enforcement

Inspectors

16.—(1) The Welsh Ministers must appoint inspectors for the purposes of these Regulations.

(2) An inspector has the powers set out in this Part of the Regulations.

Entry and inspection of land and premises

17.—(1) For the purposes of enforcing these Regulations, an inspector has power, on producing a duly authenticated authorisation, to enter any land or premises (except any premises used wholly or mainly as a private dwelling house) at any reasonable hour by giving reasonable notice.

(2) But the requirement to give notice is not necessary—

- (a) pan fo ymdrechion rhesymol i gytuno ar apwyntiad wedi methu;
- (b) pan fo gan arolygydd amheuaeth resymol o fethiant i gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn;
- (c) mewn argyfwng.

(3) Caiff ynad heddwch, drwy warant wedi ei llofnodi, ganiatáu i arolygydd fynd ar unrhyw dir neu i unrhyw fangre, a hynny gan ddefnyddio grym rhesymol os oes angen, os yw'r ynad wedi ei fodloni ar sail gwybodaeth ysgrifenedig a roddir ar lw—

- (a) bod sail resymol dros fynd ar y tir hwnnw neu i'r fangre honno at ddiben gorfodi'r Rheoliadau hyn; a
- (b) y bodlonir unrhyw un neu ragor o'r amodau ym mharagraff (4).

(4) Yr amodau yw—

- (a) bod mynediad i'r fangre wedi ei wrthod, neu'n debygol o gael ei wrthod, a bod hysbysiad o'r bwriad i wneud cais am warant wedi ei roi i'r meddiannydd;
- (b) y byddai gofyn am gael mynediad i'r fangre, neu roi hysbysiad, yn mynd yn groes i'r amcan o fynd i'r fangre;
- (c) bod angen mynediad ar fyrder;
- (d) bod y fangre heb ei meddiannu neu fod y meddiannydd yn absennol dros dro.

(5) Mae gwarant yn ddilys am dri mis.

(6) Caiff arolygydd sy'n mynd ar unrhyw dir neu i unrhyw fangre fynd ag unrhyw berson (hyd at gyfanswm o 4 o bersonau), cyfarpar, deunyddiau neu gerbyd gydag ef y mae'r arolygydd yn ystyried eu bod yn angenrheidiol at ddibenion y rheoliad hwn.

(7) Rhaid i arolygydd sy'n mynd i unrhyw fangre nad yw wedi ei meddiannu, neu y mae ei meddiannydd yn absennol ohoni dros dro, ei gadael wedi ei diogelu yr un mor effeithiol rhag mynediad heb awdurdod ag yr ydoedd cyn iddo fynd iddi.

Chwilio ac archwilio eitemau ar dir ac mewn mangreoedd

18.—(1) Pan fo arolygydd yn arfer y pŵer a roddir gan reoliad 17, caiff yr arolygydd—

- (a) agor unrhyw gynhwysydd;
- (b) cynnal unrhyw chwiliadau, arolygiadau, mesuriadau a phroffion;
- (c) cymryd samplau;
- (d) gweld, ac arolygu, unrhyw lyfrau, dogfennau neu gofnodion (ar ba ffurf bynnag y cedwir hwy) sy'n ymwneud â'r Rheoliadau hyn a mynd â hwy oddi yno i'w gwneud yn bosibl eu copïo;

- (a) where reasonable efforts to agree an appointment have failed;
- (b) where an inspector has reasonable suspicion of a failure to comply with these Regulations;
- (c) in an emergency.

(3) A justice of the peace may, by signed warrant, permit an inspector to enter any land or premises, if necessary by reasonable force, if the justice, on sworn information in writing, is satisfied that—

- (a) there are reasonable grounds to enter that land or premises for the purpose of enforcing these Regulations; and
- (b) any of the conditions in paragraph (4) are met.

(4) The conditions are—

- (a) entry to the premises has been, or is likely to be, refused, and notice of the intention to apply for a warrant has been given to the occupier;
- (b) asking for admission to the premises, or giving notice, would defeat the object of the entry;
- (c) entry is required urgently;
- (d) the premises are unoccupied or the occupier is temporarily absent.

(5) A warrant is valid for three months.

(6) An inspector entering any land or premises may be accompanied by any person (up to a maximum of 4 persons), equipment, materials or vehicle as the inspector considers necessary for the purposes of this regulation.

(7) An inspector entering any premises which are unoccupied or from which the occupier is temporarily absent must leave them as effectively secured against unauthorised entry as they were before entry.

Search and examination of items on land and premises

18.—(1) Where an inspector exercises the power conferred by regulation 17, the inspector may—

- (a) open any container;
- (b) carry out any searches, inspections, measurements and tests;
- (c) take samples;
- (d) have access to, and inspect, any books, documents or records (in whatever form they are held) relating to these Regulations and remove them to enable them to be copied;

- (e) tynnu llun o unrhyw beth neu gopïo unrhyw beth y mae gan yr arolygydd y pŵer i'w gwneud yn ofynnol ei ddangos o dan is-baragraff (d);
- (f) tynnu llun o unrhyw beth y mae gan yr arolygydd achos rhesymol i gredu y gallai fod yn berthnasol mewn cysylltiad â gorfodi'r Rheoliadau hyn;
- (g) ymafael mewn unrhyw gyfrifiaduron ac offer cysylltiedig at ddiben copïo dogfennau ar yr amod y'u dychwelir cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

(2) Caiff unrhyw berson sy'n mynd gydag arolygydd yn unol â'r rheoliad hwn gyflawni unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r arolygydd, ond dim ond o dan oruchwyliath yr arolygydd hwnnw.

Hysbysiad gwybodaeth

19. Caiff arolygydd, drwy hysbysiad a gyflwynir i unrhyw berson, ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw ddarparu'r cyfryw wybodaeth a bennir yn yr hysbysiad ar y cyfryw ffurf a bennir ynddo ac o fewn y cyfryw gyfnod ar ôl cyflwyno'r hysbysiad neu ar y cyfryw adeg a bennir ynddo.

Hysbysiad gwahardd symud

20. Caiff arolygydd, drwy hysbysiad a gyflwynir i unrhyw berson, wahardd y person hwnnw rhag symud deunyddiau planhigion o unrhyw fangre pan fo gan yr arolygydd sail resymol dros amau bod y deunyddiau planhigion yn methu â chydymffurfio â gofynion y Rheoliadau hyn.

Hysbysiad gorfodi a gwahardd

21.—(1) Caiff arolygydd gyflwyno hysbysiad i unrhyw berson sy'n torri, neu y mae gan yr arolygydd sail resymol dros amau y gallai dorri, y Rheoliadau hyn—

- (a) yn ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw weithredu yn unol â'r Rheoliadau (“hysbysiad gorfodi”);
- (b) yn gwahardd y person hwnnw rhag gweithredu'n groes iddynt (“hysbysiad gwahardd”).

(2) Rhaid i'r hysbysiad roi'r rhesymau dros ei gyflwyno ac, os yw hynny'n briodol, bennu pa gamau y mae'n rhaid eu cymryd a rhoi terfynau amser.

- (e) photograph or copy anything whose production the inspector has power to require under sub-paragraph (d);
- (f) photograph anything which the inspector has reasonable cause to believe may be relevant in connection with the enforcement of these Regulations;
- (g) seize any computers and associated equipment for the purpose of copying documents provided that they are returned as soon as practicable.

(2) Any person who accompanies an inspector in accordance with this regulation may perform any of the inspector's functions but only under the supervision of that inspector.

Information notice

19. An inspector may, by notice served on any person, require that person to provide such information as is specified in the notice in such form and within such period following service of the notice or at such time as is so specified.

Prohibition on movement notice

20. An inspector may, by notice served on any person, prohibit that person from moving plant material from any premises where the inspector has reasonable grounds to suspect the plant material fails to comply with the requirements of these Regulations.

Enforcement and prohibition notice

21.—(1) An inspector may serve a notice on any person who contravenes, or who the inspector has reasonable grounds to suspect may contravene, these Regulations—

- (a) requiring that person to act in accordance with the Regulations (an “enforcement notice”);
- (b) prohibiting that person from acting in breach of them (a “prohibition notice”).

(2) The notice must give reasons for serving it and, if appropriate, specify what action must be taken and give time limits.

Apelau yn erbyn hysbysiadau

22.—(1) Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan benderfyniad arolygydd i gyflwyno hysbysiad o dan y Rhan hon apelio i lys ynadon.

(2) Pan wneir apêl i lys ynadon, y weithdrefn fydd ei gwneud ar ffurf achwyniad, a Deddf Llysoedd Ynadon 1980(1) fydd yn gymwys i'r achos.

(3) Y cyfnod erbyn pryd y mae'n rhaid dwyn apêl yw 28 o ddiwrnodau o'r adeg y cyflwynwyd yr hysbysiad neu, yn achos hysbysiad gorfodi, y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad, pa un bynnag sy'n diweddu gynharaf.

(4) Rhaid i hysbysiad a gyflwynir o dan y Rhan hon ddatgan—

- (a) bod hawl i apelio i lys ynadon;
- (b) o fewn pa gyfnod y caniateir dwyn apêl o'r fath.

(5) Pan ddygir apêl o dan y rheoliad hwn, caiff y llys naill ai ganslo neu gadarnhau'r hysbysiad, ac os yw'n cadarnhau'r hysbysiad, caiff wneud hynny naill ai ar ei ffurf wreiddiol neu gyda'r addasiadau hynny y mae'n meddwl eu bod yn briodol.

Cydymffurfio â hysbysiadau

23. Rhaid cydymffurfio â hysbysiad a gyflwynir o dan y Rhan hon ar draul y person y cyflwynir yr hysbysiad hwnnw iddo ac, oni chydymffurfir ag ef, caiff arolygydd drefnu cydymffurfiaeth ag ef ar draul y person hwnnw.

Troseddau a chosbau

24.—(1) Mae'n drosedd i berson—

- (a) methu â chydymffurfio â hysbysiad a gyflwynir o dan—
 - (i) rheoliad 19 (hysbysiad gwybodaeth);
 - (ii) rheoliad 20 (hysbysiad gwahardd symud);
 - (iii) rheoliad 21(1)(a) (hysbysiad gorfodi);
 - (iv) rheoliad 21(1)(b) (hysbysiad gwahardd);
- (b) heb esgus rhesymol, fethu â rhoi unrhyw gymorth y gall person ofyn amdano er mwyn i'r person hwnnw gyflawni ei swyddogaethau o dan y Rheoliadau hyn;
- (c) rhwystro arolygydd yn fwriadol wrth iddo arfer unrhyw bwerau a roddwyd gan y Rheoliadau hyn.

Appeals against notices

22.—(1) Any person who is aggrieved by a decision of an inspector to serve a notice under this Part may appeal to a magistrates' court.

(2) The procedure on appeal to a magistrates' court is by way of complaint and the Magistrates' Courts Act 1980(a) applies to the proceedings.

(3) The period within which an appeal must be brought is 28 days from the service of the notice or, in the case of an enforcement notice, the period specified in the notice, whichever ends earlier.

(4) A notice served under this Part must state—

- (a) the right of appeal to a magistrates' court;
- (b) the period in which such an appeal may be brought.

(5) On an appeal under this regulation, the court may either cancel or affirm the notice and, if it affirms the notice, it may do so either in its original form or with such modifications as it thinks fit.

Compliance with notices

23. A notice served under this Part must be complied with at the expense of the person on whom it is served and, if it is not complied with, an inspector may arrange for it to be complied with at the expense of that person.

Offences and penalties

24.—(1) It is an offence for a person to—

- (a) fail to comply with a notice served under—
 - (i) regulation 19 (information notice);
 - (ii) regulation 20 (prohibition on movement notice);
 - (iii) regulation 21(1)(a) (enforcement notice);
 - (iv) regulation 21(1)(b) (prohibition notice);
- (b) fail, without reasonable excuse, to give any assistance that a person may require for the performance of that person's functions under these Regulations;
- (c) intentionally obstruct an inspector in the exercise of any powers conferred by these Regulations.

(1) 1980 p. 43; amnewidiwyd adrannau 51 a 52 gan adran 47 o Ddeddf Llysoedd 2003 (p. 39). Diwygiwyd adrannau 53 a 54 gan adran 17(6) o Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22).

(a) 1980 c. 43; sections 51 and 52 have been substituted by section 47 of the Courts Act 2003 (c. 39). Sections 53 and 54 have been amended by section 17(6) of the Crime and Courts Act 2013 (c. 22).

(2) Mae person sy'n euog o drosedd o dan baragraff (1) yn atebol, o'i euogfarnu'n ddiannod, i ddirwy nad yw'n fwy na lefel 3 ar y raddfa safonol.

Troseddau gan gyrff corfforaethol

25.—(1) Os profir bod trosedd a gyflawnwyd o dan y Rheoliadau hyn gan gorff corfforaethol—

- (a) wedi cael ei chyflawni gyda chydysniad neu ymoddefiad swyddog, neu
- (b) i'w phriodoli i unrhyw esgeulustod ar ran swyddog,

bydd y swyddog, yn ogystal â'r corff corfforaethol, yn euog o'r drosedd a bydd yn agored i gael ei erlyn a'i gosbi yn unol â hynny.

(2) Os rheolir materion corff corfforaethol gan ei aelodau, mae paragraff (1) yn gymwys mewn perthynas â gweithredoedd a diffyg gweithredoedd aelod mewn cysylltiad â swyddogaethau rheoli'r aelod fel pe bai'r aelod yn gyfarwyddwr i'r corff.

(3) Ym mharagraff (1) ystyr "swyddog", mewn perthynas â chorff corfforaethol, yw cyfarwyddwr, aelod o'r pwyllgor rheoli, prif weithredwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog cyffelyb arall y corff, neu berson sy'n honni gweithredu mewn unrhyw swydd o'r fath.

(2) A person guilty of an offence under paragraph (1) is liable on summary conviction to a fine not exceeding level 3 on the standard scale.

Offences by bodies corporate

25.—(1) If an offence committed under these Regulations by a body corporate is proved—

- (a) to have been committed with the consent or connivance of an officer, or
- (b) to be attributable to any neglect on the part of an officer,

the officer as well as the body corporate is guilty of the offence and liable to be proceeded against and punished accordingly.

(2) If the affairs of a body corporate are managed by its members, paragraph (1) applies in relation to the acts and defaults of a member in connection with the member's functions of management as if the member were a director of the body.

(3) In paragraph (1), "officer", in relation to a body corporate, means a director, member of the committee of management, chief executive, manager, secretary or other similar officer of the body, or a person purporting to act in any such capacity.

RHAN 5

Gweinyddu a dirymiadau

Hysbysiadau ac awdurdodiadau

26. O ran hysbysiad neu awdurdodiad a roddir o dan y Rheoliadau hyn—

- (a) rhaid iddo fod yn ysgrifenedig;
- (b) caniateir ei wneud yn ddarostyngedig i amodau;
- (c) caniateir ei ddiwygio, ei atal dros dro neu ei ddirymu drwy hysbysiad.

Trefniadau ar gyfer mesurau swyddogol

27.—(1) Caiff Gweinidogion Cymru wneud y cyfryw drefniadau gydag unrhyw berson ("A") y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn angenrheidiol neu'n ddymunol at ddiben galluogi A i gyflawni mesurau swyddogol o dan y Rheoliadau hyn ar ran Gweinidogion Cymru.

(2) Ond ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud unrhyw drefniant o dan y rheoliad hwn oni bai eu bod wedi eu bodloni bod y trefniant yn gwneud darpariaeth at ddiben atal unrhyw berson rhag—

PART 5

Administration and revocations

Notices and authorisations

26. A notice or authorisation given under these Regulations—

- (a) must be in writing;
- (b) may be made subject to conditions;
- (c) may be amended, suspended or revoked by notice.

Arrangements for official measures

27.—(1) The Welsh Ministers may make such arrangements with any person ("A") as the Welsh Ministers consider necessary or desirable for the purpose of enabling A to carry out official measures under these Regulations on the Welsh Ministers' behalf.

(2) But the Welsh Ministers must not make any arrangement under this regulation unless satisfied that the arrangement makes provision for the purpose of preventing any person from—

- (a) cael unrhyw elw preifat o unrhyw fesurau swyddogol a gyflawnir o dan y trefniant; a
- (b) cyflawni unrhyw fesurau swyddogol o dan y trefniant ac eithrio o dan oruchwyliaeth swyddogol.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru gynnwys mewn unrhyw drefniant y cyfryw amodau y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn angenrheidiol neu'n ddymunol at y dibenion y cyfeirir atynt ym mharagraffau (1) a (2), gan gynnwys amodau—

- (a) sy'n pennu—
 - (i) y mesurau swyddogol y mae'n rhaid i A eu cyflawni;
 - (ii) y dulliau i'w defnyddio mewn cysylltiad â'r mesurau swyddogol a gyflawnir gan A;
 - (iii) y ffioedd y caiff A eu codi mewn perthynas â'r mesurau swyddogol a gyflawnir gan A;
 - (iv) y cofnodion y mae'n rhaid i A eu cadw mewn cysylltiad â'r mesurau swyddogol a gyflawnir gan A;
- (b) sy'n gwahardd A rhag—
 - (i) codi ffioedd mewn perthynas â'r mesurau swyddogol a gyflawnir gan A o dan y trefniant ac eithrio i'r graddau nad yw'r ffioedd yn uwch na'r costau y mae A yn mynd iddynt wrth eu cyflawni;
 - (ii) cyflawni'r mesurau swyddogol ac eithrio o dan oruchwyliaeth swyddogol;
- (c) sy'n gwahardd A rhag gwneud unrhyw drefniant pellach gydag unrhyw berson arall ("B") at unrhyw ddiben mewn cysylltiad â chyflawni'r mesurau swyddogol y mae A wedi gwneud trefniadau gyda Gweinidogion Cymru i'w cyflawni, oni bai—
 - (i) bod Gweinidogion Cymru wedi cymeradwyo holl amodau'r trefniant pellach a bod A wedi cael cymeradwyaeth ysgrifenedig Gweinidogion Cymru ymlaen llaw i wneud y trefniant pellach;
 - (ii) bod y trefniant pellach yn cynnwys amod sy'n gwahardd B rhag gwneud unrhyw drefniadau dilynol at unrhyw ddiben sy'n gysylltiedig â chyflawni'r mesurau swyddogol y mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud y trefniant gydag A mewn cysylltiad â hwy;

- (a) deriving any private gain from any official measures carried out under the arrangement; and
- (b) carrying out any official measures under the arrangement except under official supervision.

(3) The Welsh Ministers may include in any arrangement such conditions as the Welsh Ministers consider necessary or desirable for the purposes referred to in paragraphs (1) and (2), including conditions—

- (a) specifying—
 - (i) the official measures that A must carry out;
 - (ii) the methods to be used in connection with the official measures that A carries out;
 - (iii) the fees that A may charge in relation to the official measures that A carries out;
 - (iv) the records that A must keep in connection with the official measures that A carries out;
- (b) prohibiting A from—
 - (i) charging fees in relation to the official measures that A carries out under the arrangement except to the extent that these do not exceed the costs that A incurs in carrying them out;
 - (ii) carrying out the official measures except under official supervision;
- (c) prohibiting A from making any further arrangement with any other person ("B") for any purpose in connection with the carrying out of the official measures that A has arranged with the Welsh Ministers to carry out, unless—
 - (i) the Welsh Ministers have approved all the conditions of the further arrangement and A has received the prior written approval of the Welsh Ministers to make the further arrangement;
 - (ii) the further arrangement includes a condition prohibiting B from making any subsequent arrangements for any purpose connected with the carrying out of the official measures in respect of which the Welsh Ministers made the arrangement with A;

- (iii) bod y trefniant pellach yn cynnwys cydnabyddiaeth gan A y caiff Gweinidogion Cymru amrywio, ddirymu neu atal dros dro y trefniant pellach os yw'n ymddangos i Weinidogion Cymru nad yw B yn cydymffurfio ag unrhyw un neu ragor o amodau'r trefniant pellach, neu bod B wedi methu â chydymffurfio ag unrhyw un neu ragor o'r amodau hynny; a
- (iv) bod y trefniadau pellach yn cynnwys yr amodau a bennir yn is-baragraffau (a) a (b) o'r paragraff hwn, ac at y dibenion hyn mae cyfeiriadau yn yr is-baragraffau hynny at A i'w dehongli fel cyfeiriadau at B, ac mae cyfeiriadau at "y trefniant" i'w dehongli fel cyfeiriadau at y trefniant pellach.

(4) Ni chaiff Gweinidogion Cymru gymeradwyo gwneud unrhyw drefniant pellach o dan y rheoliad hwn oni bai eu bod wedi eu bodloni na fydd B—

- (a) yn cael unrhyw elw preifat o unrhyw fesurau swyddogol y mae B i gael ei awdurdodi i'w cyflawni o dan y trefniant pellach;
- (b) yn cyflawni unrhyw fesurau swyddogol o dan y trefniant pellach ac eithrio o dan oruchwyliaeth swyddogol.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy hysbysiad i A neu B (yn ôl y digwydd), amrywio, atal dros dro neu ddirymu unrhyw drefniant neu drefniant pellach, neu unrhyw amodau trefniant neu amodau trefniant pellach a wneir o dan y rheoliad hwn.

(6) Rhaid i hysbysiad a roddir o dan baragraff (5) bennu—

- (a) mewn cysylltiad ag amrywiad neu ddirymiad, y dyddiad y mae'r amrywiad neu'r dirymiad yn cael effaith;
- (b) mewn cysylltiad ag atal dros dro, y cyfnod pryd y mae'r atal dros dro yn cael effaith.

(7) Pan fydd amrywiad, dirymiad neu ataliad dros dro yn cael effaith, caiff Gweinidogion Cymru, at unrhyw ddibenion mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn, barhau i roi sylw i'r cyfryw fesurau swyddogol a gyflawnir o dan drefniant (neu drefniant pellach) a gafodd ei amrywio, ei ddirymu neu ei atal dros dro yr ymddengys i Weinidogion Cymru eu bod yn fesurau swyddogol a gyflawnir yn unol â darpariaethau'r Rheoliadau hyn.

(8) Yn y rheoliad hwn, mae "mesurau swyddogol" yn cynnwys archwiliadau swyddogol, treialon tyfu, profion ac asesiadau.

- (iii) the further arrangement includes an acknowledgment by A that the Welsh Ministers may vary, revoke or suspend the further arrangement if it appears to the Welsh Ministers that B is not complying, or has failed to comply, with any condition of the further arrangement; and

- (iv) the further arrangement includes the conditions specified in sub-paragraphs (a) and (b) of this paragraph and for these purposes references in those sub-paragraphs to A are to be construed as references to B and references to "the arrangement" are to be construed as references to the further arrangement.

(4) The Welsh Ministers must not approve the making of any further arrangement under this regulation unless satisfied that B will not—

- (a) derive any private gain from any official measures that B is to be authorised to carry out under the further arrangement;
- (b) carry out any official measures under the further arrangement except under official supervision.

(5) The Welsh Ministers may, by notice to A or B (as the case may be), vary, suspend or revoke an arrangement or further arrangement, or any conditions of an arrangement or further arrangement made under this regulation.

(6) A notice given under paragraph (5) must specify—

- (a) in respect of a variation or revocation, the date from which the variation or revocation takes effect;
- (b) in respect of a suspension, the period during which the suspension has effect.

(7) When a variation, revocation or suspension has effect, the Welsh Ministers may, for any purposes in relation to these Regulations, continue to have regard to such of the official measures carried out under an arrangement (or further arrangement) which was varied, revoked or suspended as appear to the Welsh Ministers to be official measures carried out in accordance with the provisions of these Regulations.

(8) In this regulation, "official measures" include official examinations, growing trials, tests and assessments.

Darpariaeth drosiannol

28.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo deunyddiau planhigion yn cael eu cynhyrchu o riant-blanhigyn a oedd yn bodoli cyn 19 Mehefin 2017.

(2) Caiff cyflenwr farchnata deunyddiau planhigion o'r fath os yw—

- (a) y rhiant-blanhigyn yn bodloni unrhyw ofynion ardystio neu ofynion CAC sy'n berthnasol iddo o dan Reoliadau Marchnata Deunyddiau Planhigion Ffrwythau 2010; a
- (b) dogfen y cyflenwr sy'n mynd gyda hwy, neu'r label swyddogol sydd ynghlwm wrthynt, yn cynnwys cyfeiriad at Erthygl 32 o Gyfarwyddeb 2014/98/EU.

(3) Yn y rheoliad hwn, ystyr "rhiant-blanhigyn" yw planhigyn tarddiol cyn-sylfaenol, sylfaenol neu ardystiedig neu ddeunyddiau CAC.

(4) Mae'r rheoliad hwn yn peidio â chael effaith ar 31 Rhagfyr 2022.

Dirymu

29. Mae Rheoliadau Marchnata Deunyddiau Planhigion Ffrwythau 2010(1) wedi eu dirymu o ran Cymru.

Transitional provision

28.—(1) This regulation applies where plant material is produced from a parent plant existing before 19 June 2017.

(2) A supplier may market such plant material if—

- (a) the parent plant meets any certification or CAC requirements relevant to it under the Marketing of Fruit Plant Material Regulations 2010; and
- (b) the supplier's document accompanying it, or the official label affixed to it, includes a reference to Article 32 of Directive 2014/98/EU.

(3) In this regulation, "parent plant" means a pre-basic, basic or certified mother plant or CAC material.

(4) This regulation ceases to have effect on 31 December 2022.

Revocation

29. The Marketing of Fruit Plant Material Regulations 2010(a) are revoked in relation to Wales.

Lesley Griffiths

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
14 Mehefin 2017

Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs,
one of the Welsh Ministers
14 June 2017

(1) O.S. 2010/2079.

(a) S.I. 2010/2079.

Deunyddiau CAC

Amodau ar gyfer deunyddiau CAC (ac eithrio gwreiddgyffion nad ydynt yn perthyn i amrywogaeth)

1.—(1) Ni chaniateir marchnata deunyddiau CAC (ac eithrio gwreiddgyffion nad ydynt yn perthyn i amrywogaeth) oni bai eu bod yn bodloni'r gofynion yn is-baragraff (2).

(2) Y gofynion yw bod y deunyddiau CAC—

- (a) yn cael eu lluosogi o ffynhonnell ddeunyddiau adnabyddedig a gofnodir gan y cyflenwr;
- (b) yn wirdeip mewn perthynas â'r disgrifiad o'u hamrywogaeth yn unol â pharagraff 3;
- (c) yn cydymffurfio â'r gofynion iechyd ym mharagraff 4; a
- (d) yn cydymffurfio â'r gofynion ynghylch diffygion ym mharagraff 5.

(3) Pan na fo deunyddiau CAC yn cydymffurfio ag is-baragraff (2) mwyach—

- (a) rhaid i'r cyflenwr eu symud ymaith o gyffiniau deunyddiau CAC eraill;
- (b) caiff y cyflenwr gymryd camau priodol i sicrhau bod y deunyddiau hynny yn cydymffurfio ag is-baragraff (2) eto.

Gwreiddgyffion nad ydynt yn perthyn i amrywogaeth

2.—(1) Ni chaniateir marchnata deunyddiau CAC sy'n cynnwys gwreiddgyffion nad ydynt yn perthyn i amrywogaeth oni bai eu bod yn bodloni'r gofynion yn is-baragraff (2).

(2) Y gofynion yw bod y deunyddiau CAC—

- (a) yn wirdeip mewn perthynas â'r disgrifiad o'u rhywogaeth;
- (b) yn cydymffurfio â'r gofynion iechyd ym mharagraff 4; ac
- (c) yn cydymffurfio â'r gofynion ynghylch diffygion ym mharagraff 5.

(3) Pan na fo deunyddiau CAC yn cydymffurfio ag is-baragraff (2) mwyach—

- (a) rhaid i'r cyflenwr eu symud ymaith o gyffiniau deunyddiau CAC eraill;

CAC material

Conditions for CAC material (other than rootstocks not belonging to a variety)

1.—(1) CAC material (other than rootstocks not belonging to a variety) may only be marketed if it fulfils the requirements in sub-paragraph (2).

(2) The requirements are that the CAC material—

- (a) is propagated from an identified source of material recorded by the supplier;
- (b) is true to the description of its variety in accordance with paragraph 3;
- (c) complies with health requirements in paragraph 4; and
- (d) complies with requirements concerning defects in paragraph 5.

(3) Where CAC material no longer complies with sub-paragraph (2), the supplier—

- (a) must remove it from the vicinity of other CAC material;
- (b) may take appropriate measures to ensure that that material complies with sub-paragraph (2) again.

Rootstocks not belonging to a variety

2.—(1) CAC material consisting of rootstocks not belonging to a variety may only be marketed if it fulfils the requirements in sub-paragraph (2).

(2) The requirements are that the CAC material—

- (a) is true to the description of its species;
- (b) complies with health requirements in paragraph 4; and
- (c) complies with requirements concerning defects in paragraph 5.

(3) Where CAC material no longer complies with sub-paragraph (2), the supplier—

- (a) must remove it from the vicinity of other CAC material;

- (b) caiff y cyflenwr gymryd camau priodol i sicrhau bod y deunyddiau hynny yn cydymffurfio ag is-baragraff (2) eto.

- (b) may take appropriate measures to ensure that that material complies with sub-paragraph (2) again.

Gwirdeiprwydd mewn perthynas â'r disgrifiad o'r amrywogaeth

3.—(1) Rhaid i gyflenwr gadarnhau gwirdeiprwydd deunyddiau CAC mewn perthynas â'r disgrifiad o'u hamrywogaeth yn unol â'r paragraff hwn, a gwirhau'r gwirdeiprwydd hwnnw yn rheolaidd.

(2) Gwneir hynny drwy arsylwi ar y mynegiad o nodweddion amrywogaeth, a bod yr arsylwi ar sail un o'r elfennau a ganlyn—

- (a) ei disgrifiad swyddogol;
- (b) y disgrifiad sy'n mynd gyda chais i gofrestru;
- (c) y disgrifiad sy'n mynd gyda chais am hawliau amrywogaeth planhigion;
- (d) pan fo'r amrywogaeth wedi ei chofrestru â disgrifiad a gydnabyddir yn swyddogol, neu'n destun cais i gofrestru â disgrifiad a gydnabyddir yn swyddogol, y disgrifiad hwnnw.

Gofynion iechyd

4.—(1) Rhaid i'r deunyddiau CAC fod yn rhydd i bob pwrpas rhag y plâu a restrir yn Atodiadau I a II i Gyfarwyddeb 2014/98/EU, o ran y genws neu'r rhywogaeth o dan sylw.

(2) Caiff hyn ei gadarnhau drwy arolygiad gweledol gan y cyflenwr neu, pan fo amheuaeth, drwy waith samplu a phrofi.

(3) Rhaid cyflawni arolygiadau gweledol a gwaith samplu a phrofi yn unol ag Atodiad IV i Gyfarwyddeb 2014/98/EU.

(4) Ond nid yw is-baragraff (1) yn gymwys i ddeunyddiau CAC yn ystod rhewgadw.

(5) O ran deunyddiau CAC sy'n perthyn i'r rhywogaeth *Citrus* L., *Fortunella* Swingle neu *Poncirus* Raf—

- (a) rhaid eu cynhyrchu o ffynhonnell ddeunyddiau adnabyddedig y canfuwyd ei bod, drwy waith samplu a phrofi, yn rhydd rhag y plâu a restrir yn Atodiad II i Gyfarwyddeb 2014/98/EU ar gyfer y rhywogaethau hynny; a
- (b) ers dechrau'r cylch llystyfiant diwethaf, rhaid bod wedi canfod, drwy arolygiad gweledol ac unrhyw waith samplu a phrofi, eu bod yn rhydd i bob pwrpas rhag y plâu a restrir yn Atodiad II i Gyfarwyddeb 2014/98/EU, o ran y rhywogaethau o dan sylw.

Trueness to the description of the variety

3.—(1) A supplier must establish and regularly verify the trueness of CAC material to the description of its variety in accordance with this paragraph.

(2) This is done by observing the expression of the characteristics of a variety, that observation being based on one of the following elements—

- (a) its official description;
- (b) the description accompanying an application for registration;
- (c) the description accompanying an application for plant variety rights;
- (d) where the variety is registered with an officially recognised description, or subject to an application for registration with an officially recognised description, that description.

Health requirements

4.—(1) CAC material must be practically free from the pests listed in Annex I and in Annex II to Directive 2014/98/EU, as regards the genus or species concerned.

(2) This is established by a visual inspection by the supplier, or where there is doubt, by sampling and testing.

(3) A visual inspection and sampling and testing must be carried out in accordance with Annex IV to Directive 2014/98/EU.

(4) But sub-paragraph (1) does not apply to CAC material during cryopreservation.

(5) CAC material belonging to the species *Citrus* L., *Fortunella* Swingle, or *Poncirus* Raf—

- (a) must be produced from an identified source of material that has been found to be free, on sampling and testing, from the pests listed in Annex II to Directive 2014/98/EU for those species; and
- (b) since the beginning of the last cycle of vegetation, must have been found, on visual inspection and any sampling and testing, to be practically free from the pests listed in Annex II to Directive 2014/98/EU, as regards the species concerned.

(6) Yn y paragraff hwn, ystyr “rhydd i bob pwrpas rhag y plâu” yw bod y graddau y mae plâu yn bresennol ar y deunyddiau lluosogi neu’r planhigion ffrwythau yn ddigon isel i sicrhau bod y deunyddiau lluosogi o ansawdd a defnyddioldeb derbyniol.

Gofynion ynghylch diffygion sy’n debygol o amharu ar ansawdd

5.—(1) Rhaid i ddeunyddiau CAC fod yn rhydd rhag diffygion i bob pwrpas.

(2) Caiff hyn ei gadarnhau ar sail arolygiad gweledol.

(3) Mae anafiadau, aflwiad, meinweoedd creithiol neu ddysychiad yn cael eu hystyried yn ddiffygion, os ydynt yn effeithio ar ansawdd a defnyddioldeb deunyddiau CAC fel deunyddiau lluosogi.

(6) In this paragraph, “practically free from pests” means that the extent to which pests are present on the propagating material or fruit plants is sufficiently low to ensure acceptable quality and usefulness of the propagating material.

Requirements concerning defects likely to impair quality

5.—(1) CAC material must be practically free from defects.

(2) This is established on the basis of a visual inspection.

(3) Injuries, discoloration, scar tissues or desiccation are considered as defects, if they affect the quality and usefulness of CAC material as propagating material.

Labeli swyddogol a dogfennau'r
cyflenwr

RHAN 1

Labeli swyddogol

1. Rhaid i label swyddogol a ddefnyddir mewn perthynas â deunyddiau cyn-sylfaenol fod wedi ei liwio'n wyn gyda llinell groeslinol fioled.

2. Rhaid i label swyddogol a ddefnyddir mewn perthynas â deunyddiau sylfaenol fod wedi ei liwio'n wyn.

3. Rhaid i label swyddogol a ddefnyddir mewn perthynas â deunyddiau ardystiedig fod wedi ei liwio'n las.

4. O ran label swyddogol—

- (a) ni chaiff fod wedi ei ddefnyddio'n flaenorol;
- (b) rhaid iddo gynnwys y datganiad "EU rules and standards";
- (c) rhaid iddo ddatgan y manylion a ganlyn—
 - (i) enw'r awdurdod cyfrifol neu fyrfodd neilltuoel yr awdurdod hwnnw;
 - (ii) enw'r cyflenwr neu rif cofrestru'r cyflenwr;
 - (iii) rhif y dystysgrif arolygu cnwd;
 - (iv) enw botanegol y deunyddiau planhigion;
 - (v) categori'r deunyddiau planhigion (deunyddiau cyn-sylfaenol, deunyddiau sylfaenol, deunyddiau ardystiedig neu ddeunyddiau CAC) ac, ar gyfer deunyddiau sylfaenol, rhif y cenhedliad;
 - (vi) enw'r amrywogaeth a, phan fo'n briodol, enw'r clôn;
 - (vii) yn achos gwreiddgyffion nad ydynt yn perthyn i amrywogaeth, enw'r rhywogaeth neu enw'r cymysgryw rhyngrywiogaethol o dan sylw;
 - (viii) yn achos planhigion ffrwythau a impiwyd, enw amrywogaeth y gwreiddgyff ac enw'r brig-impiad;

Official labels and supplier's documents

PART 1

Official labels

1. An official label used in relation to pre-basic material must be white with a diagonal violet stripe.

2. An official label used in relation to basic material must be white.

3. An official label used in relation to certified material must be blue.

4. An official label must—

- (a) not have been previously used;
- (b) contain the statement "EU rules and standards";
- (c) state the following particulars—
 - (i) the name of the responsible authority or its distinguishing abbreviation;
 - (ii) the name of the supplier or their supplier's registration number;
 - (iii) the crop inspection certificate number;
 - (iv) the botanical name of the plant material;
 - (v) the category of plant material (pre-basic material, basic material, certified material or CAC material) and, for basic material, the generation number;
 - (vi) the denomination of the variety, and where appropriate, the clone;
 - (vii) in the case of rootstocks not belonging to a variety, the name of the species or the interspecific hybrid concerned;
 - (viii) in the case of grafted fruit plants, the denomination of the variety of the rootstock and of the top-graft;

- (ix) ar gyfer amrywogaethau y mae cais i gofrestru hawliau amrywogaeth planhigion yn yr arfaeth ar eu cyfer, rhaid rhoi'r geiriau "proposed denomination" ac "application pending" o flaen unrhyw wybodaeth a roddir mewn perthynas â pharagraffau (vi) a (viii);
- (x) pan fo'n briodol, y geiriau "variety with an officially recognised description",
- (xi) swm y deunyddiau planhigion;
- (xii) os nad yng Nghymru, enw'r wlad lle y'u cynhyrchwyd a chod neu fyrfodd priodol y wlad honno;
- (xiii) blwyddyn dyroddi'r label, neu yn achos label sy'n disodli label arall, blwyddyn dyroddi'r label gwreiddiol;
- (xiv) yn achos amrywogaeth a addaswyd yn enetig—
 - (aa) datganiad bod yr amrywogaeth wedi ei haddasu'n enetig; a
 - (bb) rhestr o'r organeddau a addaswyd yn enetig.

5. Rhaid i'r wybodaeth a'r manylion sy'n ofynnol ar label swyddogol gael eu hargraffu'n annileadwy yn un o ieithoedd swyddogol yr Undeb Ewropeaidd a bod yn hawdd i'w gweld a'u ddarllen.

6. Caiff label swyddogol gynnwys y cyfryw fanylion pellach y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol.

7. Yn y Rhan hon, ystyr "rhif y dystysgrif arolygu cnwd" yw'r rhif a roddir i'r dystysgrif arolygu cnwd gan yr arolygydd ar adeg dyroddi'r dystysgrif.

RHAN 2

Dogfen y cyflenwr: Deunyddiau CAC

8. Rhaid i ddogfen y cyflenwr sy'n mynd gyda deunyddiau CAC—

- (a) cynnwys y datganiadau "EU rules and standards" a "CAC material"; a
- (b) datgan y manylion a ganlyn—
 - (i) enw neu fyrfodau neilltuol yr awdurdod cyfrifol a'r Aelod-wladwriaeth lle y lluniwyd dogfen y cyflenwr;
 - (ii) rhif cofrestru'r cyflenwr;

- (ix) for varieties for which an application for registration of plant variety right is pending, any information given in relation to paragraphs (vi) and (viii) must be prefaced with the words "proposed denomination" and "application pending";
- (x) where appropriate, the words "variety with an officially recognised description";
- (xi) the quantity of plant material;
- (xii) where not Wales, the country of production and its respective code or abbreviation;
- (xiii) the year of issue, or in the case of a replacement label, the year of issue of the original label;
- (xiv) in the case of a genetically modified variety—
 - (aa) a statement that the variety has been genetically modified; and
 - (bb) a list of the genetically modified organisms.

5. The information and particulars required on an official label must be indelibly printed in one of the official languages of the European Union, easily visible and legible.

6. An official label may contain such further particulars as the Welsh Ministers consider appropriate.

7. In this Part, the "crop inspection certificate number" means the number allocated to the crop inspection certificate by the inspector at the time of issue.

PART 2

Supplier's document: CAC material

8. A supplier's document accompanying CAC material must—

- (a) contain the statements "EU rules and standards" and "CAC material"; and
- (b) state the following particulars—
 - (i) the names of the responsible authority and member State where the supplier's document was prepared or their distinguishing abbreviations;
 - (ii) the supplier's registration number;

- | | |
|--|---|
| <ul style="list-style-type: none"> (iii) y rhif cyfresol neu wythnosol unigol neu'r rhif swp unigol; (iv) enw botanegol y deunyddiau planhigion; (v) enw'r amrywogaeth a, phan fo'n briodol, enw'r clôn; (vi) yn achos gwreiddgyffion nad ydynt yn perthyn i amrywogaeth, enw'r rhywogaeth neu enw'r cymysgryw rhyngrywiogaethol o dan sylw; (vii) yn achos planhigion ffrwythau a impiwyd, enw amrywogaeth y gwreiddgyff ac enw'r brig-impiad; (viii) ar gyfer amrywogaethau y mae cais i gofrestru hawliau amrywogaeth planhigion yn yr arfaeth ar eu cyfer, rhaid rhoi'r geiriau "proposed denomination" ac "application pending" o flaen unrhyw wybodaeth a roddir mewn perthynas â pharagraffau (v) a (vii); (ix) y swm; (x) y wlad lle'u cynhyrchwyd a'i byrfoddau neilltuol pan fo'n wahanol i'r Aelod-wladwriaeth lle y lluniwyd dogfen y cyflenwr; (xi) dyddiad dyroddi dogfen y cyflenwr. | <ul style="list-style-type: none"> (iii) the individual serial, week or batch number; (iv) the botanical name of the plant material; (v) the denomination of the variety and, where appropriate, the clone; (vi) in the case of rootstocks not belonging to a variety, the name of the species or the interspecific hybrid concerned; (vii) in the case of grafted fruit plants, the denomination of the variety of the rootstock and of the top-graft; (viii) for varieties for which an application for registration of plant variety right is pending, any information given in relation to paragraphs (v) and (vii) must be pre-fixed with the words "proposed denomination" and "application pending"; (ix) the quantity; (x) the country of production and its distinguishing abbreviations where different from the member State in which the supplier's document was prepared; (xi) the date the supplier's document was issued. |
|--|---|

9. Rhaid i'r wybodaeth a'r manylion y mae'n ofynnol eu cynnwys yn nogfen y cyflenwr gael eu hargraffu'n annileadwy yn un o ieithoedd swyddogol yr Undeb Ewropeaidd a bod yn hawdd i'w gweld a'u darllen.

9. The information and particulars required in a supplier's document must be indelibly printed in one of the official languages of the European Union, easily visible and legible.

10. Caiff dogfen y cyflenwr sy'n mynd gyda deunyddiau CAC a gynhyrchir yng Nghymru gynnwys y cyfryw fanylion pellach y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol.

10. A supplier's document accompanying CAC material produced in Wales may contain such further particulars as the Welsh Ministers consider appropriate.

Y genera a'r rhywogaethau y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddynt

<i>Genera a rhywogaethau</i>	<i>Enw cyffredin (er arweiniad yn unig)</i>
<i>Castanea sativa</i> Mill.	Castanwydden bêr
<i>Citrus</i> L.	yn cynnwys coed Grawnffrwyth, Lemwn, Leim, Mandarin ac Oren
<i>Corylus avellana</i> L.	Collen
<i>Cydonia oblonga</i> Mill.	Coeden gwins
<i>Ficus carica</i> L.	Ffigysbren
<i>Fortunella</i> Swingle	Coeden gymcwat
<i>Fragaria</i> L.	Pob rywogaeth mefus a dyfir
<i>Juglans regia</i> L.	Coeden cnau Ffrengig
<i>Malus</i> Mill.	Coeden afalau
<i>Olea europaea</i> L.	Olewydden
<i>Pistacia vera</i> L.	Coeden bistasio
<i>Poncirus</i> Raf.	Coeden orenau teirdeiliog
<i>Prunus armeniaca</i> L.	Bricyllwydden
<i>Prunus avium</i> (L.) L.	Coeden ceirios melys
<i>Prunus cerasus</i> L.	Coeden ceirios duon
<i>Prunus domestica</i> L.	Coeden eirin
<i>Prunus dulcis</i> (Mill) D A Webb (a elwir fel arall yn <i>Prunus amygdalus</i> Batsch)	Coeden almon
<i>Prunus persica</i> (L.) Batsch	Coeden eirin gwlanog
<i>Prunus salicina</i> Lindley	Coeden eirin Siapan
<i>Pyrus</i> L.	Pob math o goed gellyg bwytadwy a dyfir, gan gynnwys gellyg perai
<i>Ribes</i> L.	Llwyn cyrens duon, eirin Mair, cyrens cochion a chyrens gwynion
<i>Rubus</i> L.	Llwyn mwyar duon, mafon a mwyar cymysgryw
<i>Vaccinium</i> L.	yn cynnwys llwyn llus America, llugaeron a llus

Genera and species to which these Regulations apply

<i>Genera and species</i>	<i>Common name (for guidance only)</i>
<i>Castanea sativa</i> Mill.	Chestnut
<i>Citrus</i> L.	includes Grapefruit, Lemon, Lime, Mandarin and Orange
<i>Corylus avellana</i> L.	Hazel
<i>Cydonia oblonga</i> Mill.	Quince
<i>Ficus carica</i> L.	Common edible fig
<i>Fortunella</i> Swingle	Kumquat
<i>Fragaria</i> L.	All cultivated strawberry species
<i>Juglans regia</i> L.	Walnut
<i>Malus</i> Mill.	Apple
<i>Olea europaea</i> L.	Olive
<i>Pistacia vera</i> L.	Pistachio
<i>Poncirus</i> Raf.	Trifoliolate orange
<i>Prunus armeniaca</i> L.	Apricot
<i>Prunus avium</i> (L.) L.	Sweet cherry
<i>Prunus cerasus</i> L.	Sour cherry
<i>Prunus domestica</i> L.	Plum
<i>Prunus dulcis</i> (Mill) D A Webb (otherwise known as <i>Prunus amygdalus</i> Batsch)	Almond
<i>Prunus persica</i> (L.) Batsch	Peach
<i>Prunus salicina</i> Lindley	Japanese plum
<i>Pyrus</i> L.	All cultivated edible pears, including perry pears
<i>Ribes</i> L.	Blackcurrant, gooseberry, redcurrant and white currant
<i>Rubus</i> L.	Blackberry, raspberry and hybrid berries
<i>Vaccinium</i> L.	includes Blueberry, cranberry and bilberry

Cofrestru amrywogaethau

Dehongli

1. Yn yr Atodlen hon—

ystyr “Cyfarwyddeb 2001/18/EC” (“*Directive 2001/18/EC*”) yw Cyfarwyddeb 2001/18/EC Senedd Ewrop a’r Cyngor ar ryddhau’n fwriadol i’r amgylchedd organeddau a addaswyd yn enetig a diddymu Cyfarwyddeb y Cyngor 90/220/EEC(1);

ystyr “gwahanol” (“*distinct*”) yw bod yr amrywogaeth yn amlwg yn wahanol, oherwydd un neu ragor o nodweddion sy’n deillio o genoteip penodol neu gyfuniad o genoteipiau, i unrhyw amrywogaeth arall y mae ei bodolaeth yn hysbys i bawb ar adeg y cais i gofrestru yn amrywogaeth;

ystyr “protocol priodol” (“*appropriate protocol*”) yw—

- (a) protocol a gyhoeddir gan Gyngor Gweinyddol Swyddfa Amrywogaethau Planhigion y Gymuned mewn perthynas â phroffion gwahanolrwydd, unffurfedd a sefydlogrwydd ar gyfer y genws penodol neu’r rhywogaeth benodol o dan sylw; neu
- (b) pan na fo protocol wedi ei gyhoeddi ar gyfer y genws perthnasol neu’r rhywogaeth berthnasol, canllawiau a lunnir gan UPOV mewn perthynas â chynnal profion gwahanolrwydd, unffurfedd a sefydlogrwydd; neu
- (c) pan na fo’r protocolau a grybwyllir ym mharagraff (a) na’r canllawiau a grybwyllir ym mharagraff (b) yn bodoli, protocol neu ganllawiau a sefydlir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â’r un materion;

ystyr “Rheoliad (EC) Rhif 1829/2003” (“*Regulation (EC) No 1829/2003*”) yw Rheoliad (EC) Rhif 1829/2003 Senedd Ewrop a’r Cyngor ar fwyd a bwyd anifeiliaid wedi eu haddasu’n enetig(2);

Registration of varieties

Interpretation

1. In this Schedule—

“appropriate protocol” (“*protocol priodol*”) means—

- (a) a protocol published by the Administrative Council of the Community Plant Variety Office in relation to distinctness, uniformity and stability tests for the particular genus or species concerned; or
- (b) where no protocol has been published for the relevant genus or species, guidelines produced by UPOV relating to the conduct of tests for distinctness, uniformity and stability; or
- (c) where protocols mentioned at paragraph (a) or guidelines mentioned at paragraph (b) do not exist, a protocol or guidelines established by the Welsh Ministers in relation to the same matters;

“Directive 2001/18/EC” (“*Cyfarwyddeb 2001/18/EC*”) means Directive 2001/18/EC of the European Parliament and of the Council on the deliberate release into the environment of genetically modified organisms and repealing Council Directive 90/220/EEC(a);

“distinct” (“*gwahanol*”) means the variety is clearly distinguishable by one or more characteristics that result from a particular genotype or combination of genotypes, from any other variety whose existence is a matter of common knowledge at the time of the application for registration as a variety;

“Regulation (EC) No 1829/2003” (“*Rheoliad (EC) Rhif 1829/2003*”) means Regulation (EC) No 1829/2003 of the European Parliament and of the Council on genetically modified food and feed(b);

(1) OJ Rhif L 106, 17.4.2001, t. 1, fel y’i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb (EU) 2015/412 (OJ Rhif L 68, 13.3.2015, t. 1).

(2) OJ Rhif L 268, 18.10.2003, t. 1; fel y’i diwygiwyd ddiwethaf gan Rheoliad (EC) Rhif 298/2008 Senedd Ewrop a’r Cyngor (OJ Rhif L 97, 9.4.2008, t. 64).

(a) OJ No L 106, 17.4.2001, p. 1 as last amended by Directive (EU) 2015/412 (OJ No L 68, 13.3.2015, p. 1).

(b) OJ No L 268, 18.10.2003, p. 1; as last amended by Regulation (EC) No. 298/2008 of the European Parliament and of the Council (OJ No L 97, 9.4.2008, p. 64).

ystyr “sefydlog” (“*stable*”) yw bod nodweddion yr amrywogaeth, sydd wedi eu cynnwys yn yr archwiliad gwahanolrwydd, yn ogystal ag unrhyw nodweddion eraill a ddefnyddir ar gyfer y disgrifiad o’r amrywogaeth, yn parhau yn ddiglyfnewid ar ôl lluosogi mynych neu, yn achos microluosogi, ar ddiwedd pob cylch o’r fath;

ystyr “unffurf” (“*uniform*”), yn amodol ar yr amrywiadau y gellir eu disgwyl yn sgil nodweddion penodol ei lluosogi, yw bod yr amrywogaeth yn ddigon unffurf o ran y nodweddion hynny sydd wedi eu cynnwys yn yr archwiliad gwahanolrwydd, yn ogystal ag unrhyw nodweddion eraill a ddefnyddir i ddisgrifio’r amrywogaeth.

Cais i gofrestru â disgrifiad swyddogol

2.—(1) Rhaid i gais i gofrestru amrywogaeth â disgrifiad swyddogol gael ei wneud yn ysgrifenedig i Weinidogion Cymru ym mha bynnag ffurf sy’n ofynnol gan Weinidogion Cymru.

(2) Rhaid i’r canlynol fynd gyda chais—

- (a) unrhyw wybodaeth dechnegol (megis, ond heb fod yn gyfyngedig i, fanylion y genws a’r rhywogaeth y mae’r amrywogaeth yn perthyn iddynt, ei henw cyffredin, manylion y ceisydd, ac enw, tarddiad a nodweddion yr amrywogaeth) sy’n ofynnol o dan brotocol priodol sy’n berthnasol i’r rhywogaeth;
- (b) gwybodaeth ynghylch a yw’r amrywogaeth wedi ei chofrestru’n swyddogol mewn man arall yn y Deyrnas Unedig neu mewn Aelod-wladwriaeth arall, neu a yw’n destun cais cofrestru o’r fath;
- (c) enw arfaethedig; a
- (d) y cyfryw wybodaeth arall sy’n ofynnol gan Weinidogion Cymru.

(3) Pan fo’n gymwys, caniateir i gais fynd gyda manylion disgrifiad swyddogol a bennir gan awdurdod cyfrifol mewn man arall yn y Deyrnas Unedig neu mewn Aelod-wladwriaeth arall.

Cofrestru

3.—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru gofrestru amrywogaeth â disgrifiad swyddogol os ydynt wedi eu bodloni—

- (a) bod yr amrywogaeth yn wahanol, yn unffurf ac yn sefydlog;
- (b) bod sampl o’r amrywogaeth ar gael; ac

“stable” (“*sefydlog*”) means the characteristics of the variety, which are included in the examination for distinctness, as well as any others used for the variety description, remain unchanged after repeated propagation or, in the case of micropropagation, at the end of each such cycle;

“uniform” (“*unffurf*”) means, subject to the variation that may be expected from the particular features of its propagation, the variety is sufficiently uniform in those characteristics which are included in the examination for distinctness, as well as any other characteristics used for the variety description.

Application for registration with an official description

2.—(1) An application for registration of a variety with an official description must be made in writing to the Welsh Ministers in such form as the Welsh Ministers may require.

(2) An application must be accompanied by—

- (a) any technical information (such as, but not limited to, details of the genus and species to which the variety belongs, its common name, the applicant’s details, the variety denomination, origin, and characteristics of the variety) required under an appropriate protocol that is relevant to the species;
- (b) information on whether the variety is officially registered elsewhere in the United Kingdom or in another member State, or is the subject of an application for such a registration;
- (c) a proposed denomination; and
- (d) such other information as the Welsh Ministers may require.

(3) Where applicable, an application may be accompanied by details of an official description established by a responsible authority elsewhere in the United Kingdom or in another member State.

Registration

3.—(1) The Welsh Ministers must register a variety with an official description if satisfied that—

- (a) the variety is distinct, uniform and stable;
- (b) a sample of the variety is available; and

- (c) mewn perthynas ag amrywogaethau a addaswyd yn enetig, fod yr organedd a addaswyd yn enetig sy'n ffurfio'r amrywogaeth wedi ei awdurdodi i'w dyfu yn unol â Chyfarwyddeb 2001/18/EC neu Reoliad (EC) Rhif 1829/2003.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru dderbyn bod amrywogaeth yn wahanol, yn unffurf ac yn sefydlog ar sail canlyniadau treialon tyfu yn unol â pharagraff 6.

(3) Nid yw'n ofynnol cynnal treialon tyfu pan fo Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni, ar sail yr wybodaeth a gyflwynir gan y cais, fod disgrifiad swyddogol a bennir gan gorff swyddogol y tu allan i Gymru yn bodloni'r amodau cofrestru sy'n ofynnol gan is-baragraff (1).

(4) Caiff Gweinidogion Cymru gofrestru amrywogaeth sydd wedi ei marchnata o fewn yr Undeb Ewropeaidd cyn 30 Medi 2012 ar yr amod bod gan yr amrywogaeth ddisgrifiad a gydnabyddir yn swyddogol.

Cofrestr amrywogaethau

4.—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru gynnal a chyhoeddi cofrestr o amrywogaethau (“y gofrestr”).

(2) Rhaid i'r gofrestr gynnwys yr wybodaeth a ganlyn ar gyfer pob amrywogaeth gofrestredig—

- (a) enw'r amrywogaeth a'i chyfystyron;
- (b) y rhywogaeth y mae'r amrywogaeth yn perthyn iddi;
- (c) y dynodiad ‘official description’ neu ‘officially recognised description’, fel y bo'n briodol;
- (d) y dyddiad cofrestru neu, pan fo'n gymwys, ddyddiad adnewyddu'r cofrestriad;
- (e) dyddiad dod i ben dilysrwydd y cofrestriad.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru hefyd, mewn perthynas â phob amrywogaeth a gofrestrir, gadw ffeil sy'n cynnwys disgrifiad o'r amrywogaeth a chrynodeb o'r ffeithiau sy'n berthnasol i'w chofrestriad.

Gofynion ychwanegol ar gyfer cynnyrch sydd i'w defnyddio fel bwyd neu fwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig

5.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i unrhyw amrywogaeth y mae cynhyrchion sydd i'w defnyddio fel y pethau a ganlyn, neu yn y pethau a ganlyn, yn deillio ohoni—

- (a) bwyd o fewn cwmpas Erthygl 3 o Reoliad (EC) Rhif 1829/2003; neu
- (b) bwyd anifeiliaid o fewn cwmpas Erthygl 15 o Reoliad (EC) Rhif 1829/2003.

- (c) in relation to genetically modified varieties, the genetically modified organism of which the variety consists is authorised for cultivation pursuant to Directive 2001/18/EC or Regulation (EC) No 1829/2003.

(2) The Welsh Ministers must base acceptance that a variety is distinct, uniform and stable on the results of growing trials in accordance with paragraph 6.

(3) Growing trials are not required where the Welsh Ministers are satisfied, on the basis of information submitted by the application, that an official description established by a responsible body outside Wales fulfils the conditions for registration required by sub-paragraph (1).

(4) The Welsh Ministers may register a variety that has been marketed within the European Union prior to 30 September 2012 provided that variety has an officially recognised description.

Register of varieties

4.—(1) The Welsh Ministers must maintain and publish a register of varieties (“the register”).

(2) The register must include the following information for each registered variety—

- (a) the denomination of the variety and synonyms;
- (b) the species the variety belongs to;
- (c) the indication ‘official description’ or ‘officially recognised description’, as appropriate;
- (d) the date of registration, or, where applicable, of renewal of registration;
- (e) the date the validity of the registration ends.

(3) The Welsh Ministers must also, in relation to each variety registered, keep a file containing a description of the variety and a summary of the facts relevant to its registration.

Additional requirements for products to be used as genetically modified food or feed

5.—(1) This paragraph applies to any variety from which products are derived for use as, or in—

- (a) food within the scope of Article 3 of Regulation (EC) No 1829/2003; or
- (b) feed within the scope of Article 15 of Regulation (EC) No 1829/2003.

(2) Cyn cofrestru unrhyw amrywogaeth o'r fath, rhaid i Weinidogion Cymru fod wedi eu bodloni bod y bwyd neu'r bwyd anifeiliaid wedi ei awdurdodi yn unol â Rheoliad (EC) Rhif 1829/2003.

(3) Pan fo'n ofynnol cynnal treial tyfu, rhaid cyflwyno sampl o ddeunyddiau'r amrywogaeth ar gais.

Treialon tyfu

6.—(1) Caniateir cynnal treialon tyfu—

- (a) gan Weinidogion Cymru; □
- (b) ar ran Gweinidogion Cymru yn unol â'r trefniadau ar gyfer mesurau swyddogol a wneir o dan reoliad 27; neu
- (c) gan awdurdod cyfrifol mewn man arall yn y Deyrnas Unedig neu mewn Aelod-wladwriaeth arall.

(2) Rhaid i dreialon tyfu—

- (a) cadarnhau a yw amrywogaeth yn wahanol, yn unffurf ac yn sefydlog; a
- (b) cael eu cynnal, o ran cynllun y treialon, yr amodau tyfu a nodweddion yr amrywogaeth o dan sylw, yn unol â'r protocol priodol.

Parhad cofrestriad ac adnewyddu cofrestriad

7.—(1) Mae cofrestriad amrywogaeth yn ddilys—

- (a) yn achos amrywogaeth a addaswyd yn enetig, am y cyfnod y mae'r organedd a addaswyd yn enetig sy'n ffurfio'r amrywogaeth wedi ei awdurdodi i'w dyfu yn unol â Chyfarwyddeb 2001/18/EC neu Reoliad (EC) Rhif 1829/2003; neu
- (b) fel arall hyd at ddiwedd y 30ain blwyddyn galendr ar ôl y dyddiad derbyn.

(2) Ond nid yw is-baragraff (1) yn gymwys os yw'r cofrestriad—

- (a) yn cael ei adnewyddu yn unol ag is-baragraff (3) neu (4) (fel y bo'n briodol);
- (b) yn cael ei ddirymu yn unol â pharagraff 8.

(3) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (4), caiff Gweinidogion Cymru, ar sail cais ysgrifenedig, adnewyddu'r cofrestriad am gyfnod pellach o 30 o flynyddoedd—

- (a) os yw'r amrywogaeth yn wahanol, yn unffurf ac yn sefydlog;
- (b) os oes deunyddiau o'r amrywogaeth honno ar gael ar y farchnad.

(4) Yn achos amrywogaeth a addaswyd yn enetig—

(2) Before registering any such variety, the Welsh Ministers must be satisfied that the food or feed has been authorised pursuant to Regulation (EC) No 1829/2003.

(3) Where a growing trial is required, a sample of the material of the variety must be submitted on request.

Growing trials

6.—(1) Growing trials may be carried out—

- (a) by the Welsh Ministers;
- (b) for the Welsh Ministers in accordance with arrangements for official measures made under regulation 27; or
- (c) by a responsible authority elsewhere in the United Kingdom or in another member State.

(2) Growing trials must—

- (a) establish whether a variety is distinct, uniform and stable; and
- (b) be conducted, as regards trial design, growing conditions and characteristics of the variety to be covered, in accordance with an appropriate protocol.

Duration and renewal of registration

7.—(1) Registration of a variety is valid—

- (a) in the case of a genetically modified variety, for the period for which the genetically modified organism of which the variety consists is authorised for cultivation pursuant to Directive 2001/18/EC or Regulation (EC) No 1829/2003; or
- (b) otherwise until the end of the 30th calendar year from the date of acceptance.

(2) But sub-paragraph (1) does not apply if the registration is—

- (a) renewed in accordance with sub-paragraph (3) or (4) (as appropriate);
- (b) revoked in accordance with paragraph 8.

(3) Subject to sub-paragraph (4), the Welsh Ministers may, on the basis of a written application, renew the registration for a further period of 30 years if—

- (a) the variety is distinct, uniform and stable;
- (b) there is material of that variety available on the market.

(4) In the case of a genetically modified variety—

- (a) rhaid i unrhyw achos o adnewyddu cofrestrriad fod yn ddarostyngedig i amod bod yr organedd a addaswyd yn enetig priodol yn parhau i fod wedi ei awdurdodi i'w dyfu yn unol â Chyfarwyddeb 2001/18/EC neu Reoliad (EC) Rhif 1829/2003;
- (b) rhaid i'r cyfnod adnewyddu fod yn gyfyngedig i gyfnod awdurdodi'r organedd a addaswyd yn enetig o dan sylw.

(5) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (4), caiff Gweinidogion Cymru adnewyddu'r cofrestrriad heb gais ysgrifenedig os ydynt wedi eu bodloni bod adnewyddu yn gwarchod amrywiaeth enetig a chynhyrchu cynaliadwy.

Dileu o'r gofrestr

8.—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru ddirymu cofrestrriad amrywogaeth—

- (a) os nad yw'n wahanol, yn unffurf neu'n sefydlog mwyach;
- (b) os nad oes unrhyw ddeunydd o'r amrywogaeth honno ar gael mwyach sy'n ddigon unffurf neu sy'n cyfateb i'r disgrifiad o'r amrywogaeth ar yr adeg y'i cofrestrwyd;
- (c) os darparwyd gwybodaeth anwir neu gamarweiniol sy'n berthnasol i gofrestru i Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â'r cais i gofrestru;
- (d) yn achos unrhyw amrywogaeth a addaswyd yn enetig, os yw'r organedd a addaswyd yn enetig sydd wedi ei gynnwys yn yr amrywogaeth yn peidio â bod yn awdurdodedig yn unol â Chyfarwyddeb 2001/18/EC neu Reoliad (EC) Rhif 1829/2003.

(2) Ond nid yw is-baragraff (1)(a) i (c) yn gymwys os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni y dylai'r amrywogaeth barhau ar y gofrestr er budd gwarchod amrywiaeth enetig amrywogaethau.

- (a) any renewal of registration must be subject to a condition that the respective genetically modified organism continues to be authorised for cultivation pursuant to Directive 2001/18/EC or Regulation (EC) No 1829/2003;
- (b) the renewal period must be limited to the period of authorisation of the genetically modified organism concerned.

(5) Subject to sub-paragraph (4), the Welsh Ministers may renew the registration in the absence of a written application if satisfied renewal serves to preserve genetic diversity and sustainable production.

Removal from register

8.—(1) The Welsh Ministers must revoke the registration of a variety if—

- (a) it is no longer distinct, uniform or stable;
- (b) there is no longer available any material of that variety that is sufficiently uniform or which corresponds to the description of the variety at the time of registration;
- (c) false or misleading information material to registration was provided to the Welsh Ministers in connection with the application for registration;
- (d) in the case of any genetically modified variety, the genetically modified organism contained in that variety ceases to be authorised pursuant to Directive 2001/18/EC or Regulation (EC) No 1829/2003.

(2) But sub-paragraph (1)(a) to (c) does not apply if the Welsh Ministers are satisfied that the variety should remain on the register in the interests of preserving the genetic diversity of varieties.

Ardystio deunyddiau planhigion

RHAN 1

Rhagarweiniad

Dehongli

1. Yn yr Atodlen hon—

ystyr “adnewyddu” (“*renewal*”) yw disodli planhigyn â phlanhigyn a gynhyrchir yn llystyfol ohono;

ystyr “arolygiad swyddogol” (“*official inspection*”) yw arolygiad gweledol a, phan fo’n briodol, gwaith samplu a phrofi a gyflawnir gan arolygydd yn unol â pharagraff 2;

ystyr “lluosi” (“*multiplication*”) yw atgynhyrchiad llystyfol planhigion er mwyn cael nifer digonol o blanhigion yn yr un categori;

ystyr “planhigyn tarddiol cyn-sylfaenol sy’n destun cais” (“*candidate pre-basic mother plant*”) yw planhigyn tarddiol y mae’r cyflenwr yn bwriadu iddo gael ei dderbyn yn blanhigyn tarddiol cyn-sylfaenol;

ystyr “protocol priodol” (“*appropriate protocol*”) yw—

- (a) protocol a gyhoeddir gan Sefydliad Diogelu Planhigion Ewrop a Glannau’r Canolfor mewn perthynas â’r gweithgarwch penodol (megis, ond heb fod yn gyfyngedig i, waith samplu a phrofi neu luosi, adnewyddu a lluosogi, gan gynnwys drwy ficroluosogi, planhigion tarddiol) a’r genws penodol neu’r rhywogaeth benodol o dan sylw;
- (b) pan na fo’r protocol a grybwyllir ym mharagraff (a) yn bodoli, protocol a gydnabyddir yn rhyngwladol mewn perthynas â’r un materion; neu
- (c) pan na fo’r protocol a grybwyllir ym mharagraff (a) na (b) yn bodoli, protocol a sefydlir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â’r un materion.

Arolygiadau swyddogol

2.—(1) Yn ystod arolygiad swyddogol, rhaid i arolygydd dalu sylw i—

- (a) addasrwydd dulliau’r cyflenwr ar gyfer gwirio pob un o gamau allweddol y broses gynhyrchu, a’r defnydd o’r dulliau hynny;

Certification of plant material

PART 1

Introduction

Interpretation

1. In this Schedule—

“appropriate protocol” (“*protocol priodol*”) means—

- (a) a protocol published by the European and Mediterranean Plant Protection Organisation in relation to the particular activity (such as, but not limited to, sampling and testing or multiplication, renewal and propagation, including by micropropagation, of mother plants) and the particular genus or species concerned;
- (b) where no protocol mentioned at paragraph (a) exists, a protocol in relation to the same matters which has international recognition; or
- (c) where neither protocol mentioned at paragraph (a) or (b) exists, a protocol established by the Welsh Ministers in relation to the same matters;

“candidate pre-basic mother plant” (“*planhigyn tarddiol cyn-sylfaenol sy’n destun cais*”) means a mother plant which the supplier intends to have accepted as a pre-basic mother plant;

“multiplication” (“*lluosi*”) means the vegetative production of plants in order to obtain a sufficient number of plants in the same category;

“official inspection” (“*arolygiad swyddogol*”) means a visual inspection and, where appropriate, sampling and testing carried out by an inspector in accordance with paragraph 2;

“renewal” (“*adnewyddu*”) means replacing a plant with a plant vegetatively produced from it.

Official inspections

2.—(1) During an official inspection, an inspector must pay attention to—

- (a) the suitability and use of methods by the supplier for checking each of the critical points in the production process;

- (b) cymhwysedd cyffredinol staff y cyflenwr i gyflawni gwaith cynhyrchu neu atgynhyrchu deunyddiau lluosogi a phlanhigion ffrwythau.

(2) Rhaid i arolygydd gadw cofnodion o ganlyniadau a dyddiadau pob arolygiad maes a'r holl waith samplu a phrofi a gyflawnir gan yr arolygydd hwnnw.

RHAN 2

Ardystio deunyddiau cyn-sylfaenol

Deunyddiau lluosogi (ac eithrio planhigion tarddiol a gwreiddgyffion)

3.—(1) Caniateir ardystio deunyddiau lluosogi (ac eithrio planhigion tarddiol a gwreiddgyffion) yn ddeunyddiau cyn-sylfaenol os yw'r deunyddiau hynny yn bodloni'r gofynion yn is-baragraff (2).

(2) Y gofynion yw bod y deunyddiau lluosogi—

- (a) yn cael eu lluosogi'n uniongyrchol o blanhigyn tarddiol—
- (i) wedi ei dderbyn yn unol â pharagraff 5;
- (ii) yn deillio o luosi neu ficroluosogi yn unol â pharagraff 13;
- (b) wedi cael eu gwirhau o ran eu gwirdeiprwydd mewn perthynas â'r disgrifiad o'u hamrywogaeth gan arolygydd yn unol â pharagraff 7;
- (c) wedi eu cynnal yn unol â pharagraff 8;
- (d) yn cydymffurfio â'r gofynion iechyd ym mharagraff 10;
- (e) pan fônt wedi eu hawdurdodi o dan baragraff 8(2) i gael eu tyfu yn y maes o dan amodau nad ydynt yn ddiogel rhag pryfed, yn cael eu tyfu mewn pridd y canfyddir, drwy waith samplu a phrofi, ei fod yn cydymffurfio â pharagraff 11;
- (f) yn cydymffurfio â pharagraff 12 o ran diffygion.

(3) Pan na fo'r planhigyn tarddiol neu'r deunyddiau lluosogi yn bodloni'r gofynion perthnasol yn is-baragraff (2) mwyach—

- (a) rhaid i'r cyflenwr symud y planhigyn neu'r deunyddiau ymaith o gyffiniau planhigion tarddiol cyn-sylfaenol eraill a deunyddiau cyn-sylfaenol eraill;
- (b) caiff y cyflenwr gymryd camau priodol i sicrhau bod y planhigyn tarddiol neu'r deunyddiau yn cydymffurfio â'r gofynion hynny eto.

- (b) the overall competence of the supplier's staff to carry out the production or reproduction of propagating material and fruit plants.

(2) An inspector must keep records of the results and dates of all field inspections and sampling and testing carried out by that inspector.

PART 2

Certification of pre-basic material

Propagating material (other than mother plants and rootstocks)

3.—(1) Propagating material (other than mother plants and rootstocks) may be certified as pre-basic material if that material meets the requirements in subparagraph (2).

(2) The requirements are that the propagating material—

- (a) is directly propagated from a mother plant—
- (i) accepted in accordance with paragraph 5;
- (ii) obtained by multiplication or micropropagation in accordance with paragraph 13;
- (b) has been verified by an inspector as being true to the description of its variety in accordance with paragraph 7;
- (c) has been maintained in accordance with paragraph 8;
- (d) complies with the health requirements in paragraph 10;
- (e) where authorised under paragraph 8(2) to be grown in the field under non-insect proof conditions, is grown in soil that is found, by sampling and testing, to comply with paragraph 11;
- (f) complies with paragraph 12 concerning defects.

(3) Where the mother plant or propagating material no longer fulfils the relevant requirements in subparagraph (2), the supplier—

- (a) must remove the plant or material from the vicinity of other pre-basic mother plants and pre-basic material;
- (b) may take appropriate measures in order to ensure that the mother plant or material complies with those requirements again.

(4) Caiff cyflenwr ddefnyddio unrhyw blanhigyn tarddiol neu ddeunyddiau a symudir ymaith yn unol ag is-baragraff (3)(a) fel deunyddiau sylfaenol, deunyddiau ardystiedig neu ddeunyddiau CAC ar yr amod bod y planhigyn neu'r deunyddiau yn bodloni'r gofynion a nodir yn y Rheoliadau hyn ar gyfer y categorïau priodol.

Gwreiddgyffion nad ydynt yn perthyn i amrywogaeth

4.—(1) Caniateir ardystio gwreiddgyffion nad yw'n perthyn i amrywogaeth yn ddeunyddiau cyn-sylfaenol os yw'n bodloni'r gofynion yn is-baragraff (2).

(2) Y gofynion yw bod y gwreiddgyffion—

- (a) yn cael ei luosogi'n uniongyrchol o blanhigyn tarddiol—
 - (i) drwy luosogi llystyfol neu rywiol, ac yn achos lluosogi rhywiol, gan goed sy'n peillio (coed peillio) a gynhyrchir yn uniongyrchol drwy luosogi llystyfol o blanhigyn tarddiol;
 - (ii) wedi ei dderbyn yn unol â pharagraff 5;
 - (iii) yn deillio o luosi neu ficroluosogi yn unol â pharagraff 13;
- (b) wedi cael ei wirhau o ran ei wirdeiprwydd mewn perthynas â'r disgrifiad o'i amrywogaeth gan arolygydd yn unol â pharagraff 7;
- (c) wedi ei gynnal yn unol â pharagraff 8;
- (d) yn cydymffurfio â'r gofynion iechyd ym mharagraff 10;
- (e) pan fo wedi ei awdurdodi o dan baragraff 8(2) i gael ei dyfu yn y maes o dan amodau nad ydynt yn ddiogel rhag pryfed, yn cael ei dyfu mewn pridd y canfyddir, drwy waith samplu a phrofi, ei fod yn cydymffurfio â pharagraff 11;
- (f) yn cydymffurfio â pharagraff 12 o ran diffygion.

(3) Pan na fo gwreiddgyffion, sy'n blanhigyn tarddiol cyn-sylfaenol neu'n ddeunyddiau cyn-sylfaenol, yn bodloni'r gofynion yn is-baragraff (2) mwyach—

- (a) rhaid i'r cyflenwr symud y planhigyn tarddiol neu'r deunyddiau ymaith o gyffiniau planhigion tarddiol cyn-sylfaenol eraill a deunyddiau cyn-sylfaenol eraill;
- (b) caiff y cyflenwr gymryd camau priodol i sicrhau bod y planhigyn tarddiol neu'r deunyddiau yn cydymffurfio â'r gofynion hynny eto.

(4) A supplier may use any mother plant or material removed in accordance with sub-paragraph (3)(a) as basic, certified or CAC material provided the plant or material fulfils the requirements set out in these Regulations for the respective categories.

Rootstocks not belonging to a variety

4.—(1) A rootstock not belonging to a variety may be certified as pre-basic material if it meets the requirements in sub-paragraph (2).

(2) The requirements are that the rootstock—

- (a) is directly propagated from a mother plant—
 - (i) by vegetative or sexual propagation, and in the case of sexual propagation, by pollinating trees (pollenisers) that are directly produced by vegetative propagation from a mother plant;
 - (ii) accepted in accordance with paragraph 5;
 - (iii) obtained by multiplication or micropropagation in accordance with paragraph 13;
- (b) has been verified by an inspector as being true to the description of its variety in accordance with paragraph 7;
- (c) has been maintained in accordance with paragraph 8;
- (d) complies with the health requirements in paragraph 10;
- (e) where authorised under paragraph 8(2) to be grown in the field under non-insect proof conditions, is grown in soil that is found, by sampling and testing, to comply with paragraph 11;
- (f) complies with paragraph 12 concerning defects.

(3) Where a rootstock, which is a pre-basic mother plant or pre-basic material, no longer fulfils the relevant requirements in sub-paragraph (2), the supplier—

- (a) must remove the mother plant or material from the vicinity of other pre-basic mother plants and pre-basic material;
- (b) may take appropriate measures to ensure the mother plant or the material complies with those requirements again.

(4) Caiff cyflenwr ddefnyddio unrhyw blanhigyn tarddiol neu ddeunyddiau a symudir ymaith yn unol ag is-baragraff (3)(a) fel deunyddiau sylfaenol, deunyddiau ardystiedig neu ddeunyddiau CAC ar yr amod bod y planhigyn tarddiol neu'r deunyddiau yn bodloni'r gofynion a nodir yn y Rheoliadau hyn ar gyfer y categorïau priodol.

Gofynion ar gyfer derbyn planhigyn tarddiol cyn-sylfaenol

5.—(1) Caniateir derbyn planhigyn yn blanhigyn tarddiol cyn-sylfaenol os yw arolygiad swyddogol yn cadarnhau—

- (a) cydymffurfedd â pharagraffau 7 i 12; a
- (b) bod ei wirdeiprwydd mewn perthynas â'r disgrifiad o'i hamrywogaeth yn cael ei gadarnhau yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Rhaid i arolygydd gadarnhau gwirdeiprwydd y planhigyn tarddiol cyn-sylfaenol mewn perthynas â'r disgrifiad o'i hamrywogaeth drwy arsylwi ar y mynegiad o nodweddion yr amrywogaeth.

(3) Rhaid i'r arsylwi hwnnw fod yn seiliedig ar un o'r elfennau a ganlyn—

- (a) y disgrifiad swyddogol ar gyfer amrywogaethau a gofrestrwyd mewn cofrestr amrywogaethau, ac ar gyfer amrywogaethau sydd wedi eu gwarchod yn gyfreithiol gan hawliau amrywogaeth planhigion;
- (b) y disgrifiad sy'n dod gyda'r cais ar gyfer amrywogaethau sy'n destun cais i gofrestru mewn cofrestr amrywogaethau;
- (c) y disgrifiad sy'n dod gyda'r cais ar gyfer amrywogaethau sy'n destun cais i gofrestru hawliau amrywogaeth planhigion;
- (d) y disgrifiad a gydnabyddir yn swyddogol, os yw'r amrywogaeth sy'n ddarostyngedig i'r disgrifiad hwnnw wedi ei gofrestru mewn cofrestr amrywogaethau.

(4) Pan fo is-baragraff (3)(b) neu (c) yn gymwys—

- (a) ni chaniateir derbyn y planhigyn tarddiol cyn-sylfaenol oni bai bod adroddiad a luniwyd gan arolygydd neu awdurdod cyfrifol y tu allan i Gymru ar gael sy'n profi bod yr amrywogaeth briodol yn wahanol, yn unffurf ac yn sefydlog;
- (b) hyd nes y cofrestrir yr amrywogaeth, ni chaniateir defnyddio'r planhigyn tarddiol o dan sylw a'r deunyddiau a gynhyrchir ohono ac eithrio ar gyfer cynhyrchu deunyddiau sylfaenol neu ddeunyddiau ardystiedig, ac ni chaniateir eu marchnata fel deunyddiau cyn-sylfaenol, sylfaenol neu ardystiedig.

(4) A supplier may use any mother plant or material removed in accordance with sub-paragraph (3)(a) as basic, certified or CAC material provided the mother plant or material fulfils the requirements set out in these Regulations for the respective categories.

Requirements for the acceptance of a pre-basic mother plant

5.—(1) A plant may be accepted as a pre-basic mother plant if an official inspection confirms—

- (a) compliance with paragraphs 7 to 12; and
- (b) its trueness to the description of its variety is established in accordance with this regulation.

(2) An inspector must establish the trueness of the pre-basic mother plant to the description of its variety by the observation of the expression of the characteristics of the variety.

(3) That observation must be based on one of the following elements—

- (a) the official description for varieties registered in a register of varieties, and for varieties legally protected by a plant variety right;
- (b) the description accompanying the application for varieties which are the subject of an application for registration in a register of varieties;
- (c) the description accompanying the application for varieties which are the subject of an application for registration of a plant variety right;
- (d) the officially recognised description, if the variety subject to that description is registered in a register of varieties.

(4) Where sub-paragraph (3)(b) or (c) applies—

- (a) the pre-basic mother plant may only be accepted if a report, produced by an inspector or by a responsible authority outside Wales, is available proving that the respective variety is distinct, uniform and stable;
- (b) pending the registration of the variety, the mother plant concerned and the material produced from it may only be used for the production of basic or certified material and must not be marketed as pre-basic, basic or certified material.

(5) Pan fo ond yn bosibl cadarnhau gwirdeiprwydd mewn perthynas â'r disgrifiad o'r amrywogaeth ar sail nodweddion planhigyn sy'n dwyn ffrwyth—

- (a) rhaid cyflawni'r arsylwi ar y mynegiad o nodweddion yr amrywogaeth ar ffrwythau planhigyn sy'n dwyn ffrwyth a luosogir o'r planhigyn tarddiol cyn-sylfaenol; a
- (b) rhaid cadw'r planhigion hynny sy'n dwyn ffrwyth ar wahân i'r planhigion tarddiol cyn-sylfaenol a'r deunyddiau cyn-sylfaenol.

(6) Rhaid cynnal arolygiad gweledol o blanhigion sy'n dwyn ffrwyth yn ystod y cyfnodau mwyaf priodol o'r flwyddyn, gan gymryd i ystyriaeth amodau hinsoddol ac amodau tyfu planhigion o'r genera neu'r rhywogaethau o dan sylw.

(7) Yn y paragraff hwn—

ystyr “cofrestr amrywogaethau” (“*register of varieties*”) yw—

- (a) mewn perthynas â chofrestru amrywogaethau yng Nghymru, y gofrestr a gynhelir yn unol â pharagraff 4(1) o Atodlen 4;
- (b) mewn perthynas â chofrestru amrywogaethau y tu allan i Gymru, y gofrestr a gynhelir yn unol ag Erthygl 3(1) o Gyfarwyddeb 2014/97/EU;

ystyr “planhigyn sy'n dwyn ffrwyth” (“*fruiting plant*”) yw planhigyn a luosogir o blanhigyn tarddiol ac a dyfir i gynhyrchu ffrwyth er mwyn caniatáu gwirhau hunaniaeth amrywogaethol y planhigyn tarddiol hwnnw.

Y gofynion ar gyfer derbyn gwreiddgyff nad yw'n perthyn i amrywogaeth

6. Caiff arolygydd dderbyn gwreiddgyff nad yw'n perthyn i amrywogaeth yn blanhigyn tarddiol cyn-sylfaenol os yw'n wirdeip mewn perthynas â'r disgrifiad o'i rywogaeth ac os yw'n cydymffurfio â pharagraffau 8 i 12.

Gwirhau gwirdeiprwydd mewn perthynas â'r disgrifiad o'r amrywogaeth

7.—(1) Rhaid i arolygydd a, phan fo'n briodol, y cyflenwr, wirhau gwirdeiprwydd planhigion tarddiol cyn-sylfaenol a deunyddiau cyn-sylfaenol mewn perthynas â'r disgrifiad o'u hamrywogaeth yn rheolaidd, yn unol â pharagraff 5(2) a (3), fel y bo'n briodol i'r amrywogaeth o dan sylw a'r dull lluosogi a ddefnyddir.

(5) Where the establishment of the trueness to the description of the variety is only possible on the basis of the characteristics of a fruiting plant—

- (a) the observation of the expression of the characteristics of the variety must be carried out on the fruits of a fruiting plant propagated from the pre-basic mother plant; and
- (b) those fruiting plants must be kept separate from the pre-basic mother plants and pre-basic material.

(6) Fruiting plants must be visually inspected in the most appropriate periods of the year taking into account climatic and growing conditions of plants of the genera or species concerned.

(7) In this paragraph—

“fruiting plant” (“*planhigyn sy'n dwyn ffrwyth*”) means a plant propagated from a mother plant and grown for the production of fruit in order to permit the verification of the varietal identity of that mother plant;

“register of varieties” (“*cofrestr amrywogaethau*”) means—

- (a) in relation to the registration of varieties in Wales, the register maintained in accordance with paragraph 4(1) of Schedule 4;
- (b) in relation to the registration of varieties outside Wales, the register maintained in accordance with Article 3(1) of Directive 2014/97/EU.

Requirements for the acceptance of a rootstock not belonging to a variety

6. An inspector may accept a rootstock not belonging to a variety as a pre-basic mother plant if it is true to the description of its species and if it complies with paragraphs 8 to 12.

Verification of trueness to the description of the variety

7.—(1) An inspector and, where appropriate, the supplier, must regularly verify the trueness of pre-basic mother plants and of pre-basic material to the description of their variety, in accordance with paragraph 5(2) and (3), as appropriate for the variety concerned and the propagation method used.

(2) Yn ogystal â gwirhau planhigion tarddiol cyn-sylfaenol a deunyddiau cyn-sylfaenol yn rheolaidd, rhaid i'r arolygydd a, phan fo'n briodol, y cyflenwr, ar ôl pob achos o adnewyddu planhigyn tarddiol, wirhau'r planhigion tarddiol cyn-sylfaenol sy'n deillio ohono.

Gofynion cynnal: deunyddiau cyn-sylfaenol a phlanhigion tarddiol cyn-sylfaenol

8.—(1) Rhaid i gyflenwr—

- (a) cynnal planhigion tarddiol cyn-sylfaenol a deunyddiau cyn-sylfaenol mewn cyfleusterau a ddynodir ar gyfer y genera neu'r rhywogaethau o dan sylw, sy'n ddiogel rhag pryfed ac yn sicrhau eu bod yn rhydd rhag heintio gan fectorau a gludir yn yr awyr ac unrhyw ffynonellau posibl eraill drwy gydol y broses gynhyrchu;
- (b) tyfu neu gynhyrchu planhigion tarddiol cyn-sylfaenol a deunyddiau cyn-sylfaenol wedi eu hynysu oddi wrth y pridd, mewn potiau a labelir yn unigol sy'n cynnwys cyfrwng tyfu nad yw'n cynnwys pridd neu sy'n cynnwys cyfrwng tyfu diheintiedig;
- (c) sicrhau bod planhigion tarddiol cyn-sylfaenol a deunyddiau cyn-sylfaenol yn cael eu nodi'n unigol drwy gydol y broses gynhyrchu;
- (d) cadw planhigion tarddiol cyn-sylfaenol sy'n destun cais o dan amodau sy'n ddiogel rhag pryfed, ac wedi eu hynysu yn gorfforol oddi wrth blanhigion tarddiol cyn-sylfaenol eraill yn y cyfleusterau y cyfeirir atynt ym mharagraff (a), hyd nes bod yr holl brofion o ran cydymffurfedd â pharagraff 9 wedi eu cwblhau.

(2) Ond nid yw is-baragraff (1) yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru yn awdurdodi cynhyrchu planhigion tarddiol cyn-sylfaenol (gan gynnwys planhigion tarddiol cyn-sylfaenol sy'n destun cais) a deunyddiau cyn-sylfaenol mewn maes o dan amodau nad ydynt yn ddiogel rhag pryfed, a chaiff Weinidogion Cymru wneud hynny os ydynt wedi eu bodloni—

- (a) bod y Comisiwn Ewropeaidd wedi awdurdodi'r Deyrnas Unedig i wneud hynny o dan Erthygl 8(4) o Gyfarwyddeb 2014/98/EU;
- (b) bod y planhigion a'r deunyddiau wedi eu nodi â labeli sy'n sicrhau y gellir eu holrhain; ac

(2) In addition to the regular verification of pre-basic mother plants and pre-basic material, the inspector and, where appropriate, the supplier must, after each renewal of a mother plant, verify the pre-basic mother plants resulting from it.

Maintenance requirements: pre-basic material and pre-basic mother plants

8.—(1) A supplier must—

- (a) maintain pre-basic mother plants and pre-basic material in facilities designated for the genera or species concerned, which are insect proof and ensure freedom from infection through aerial vectors and any other possible sources throughout the production process;
- (b) grow or produce pre-basic mother plants and pre-basic material isolated from the soil, in individually labelled pots of soil-free or of sterilised growing media;
- (c) ensure pre-basic mother plants and pre-basic material are individually identified throughout the production process;
- (d) keep candidate pre-basic mother plants under insect proof conditions, and physically isolated from pre-basic mother plants in the facilities referred to in paragraph (a), until all tests concerning compliance with paragraph 9 have been concluded.

(2) But sub-paragraph (1) does not apply where the Welsh Ministers authorise the production of pre-basic mother plants (including candidate pre-basic mother plants) and pre-basic material in a field under non-insect proof conditions, which the Welsh Ministers may do if satisfied—

- (a) the European Commission has authorised the United Kingdom to do so under Article 8(4) of Directive 2014/98/EU;
- (b) the plants and material are identified by labels that ensure traceability; and

- (c) y cymerir camau priodol i atal heintio'r planhigion a'r deunyddiau gan fectorau a gludir yn yr awyr, dod i gyffyrddiad â gwreiddiau planhigyn arall, croes-heintio gan beiriannau, offer impio neu unrhyw ffynhonnell bosibl arall.

(3) O ran planhigion tarddiol cyn-sylfaenol a deunyddiau cyn-sylfaenol—

- (a) caniateir eu cynnal drwy rewgadw; a
- (b) ni chaniateir eu defnyddio ac eithrio am gyfnod a gyfrifir ar sail sefydlogrwydd yr amrywogaeth neu'r amodau amgylcheddol y'u tyfir oddi tanynt ac unrhyw benderfynyddion eraill sy'n effeithio ar sefydlogrwydd yr amrywogaeth.

Gofynion iechyd: planhigion tarddiol cyn-sylfaenol sy'n destun cais a phlanhigion tarddiol cyn-sylfaenol a gynhyrchir drwy adnewyddu

9.—(1) Rhaid i blanhigion tarddiol cyn-sylfaenol sy'n destun cais a phlanhigion tarddiol cyn-sylfaenol a gynhyrchir drwy adnewyddu fod yn rhydd rhag y plâu a restrir yn Atodiad I ac yn Atodiad II i Gyfarwyddeb 2014/98/EU, o ran y genws neu'r rhywogaeth o dan sylw.

(2) Caiff hyn ei gadarnhau—

- (a) ar gyfer plâu a restrir yn Atodiad I i Gyfarwyddeb 2014/98/EU, drwy arolygiad gweledol, ac mewn achosion lle ceir amheuaeth ynghylch presenoldeb y plâu hynny, drwy waith samplu a phrofi;
- (b) ar gyfer plâu a restrir yn Atodiad II i Gyfarwyddeb 2014/98/EU, drwy arolygiad gweledol a gwaith samplu a phrofi.

(3) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (4), o ran gwaith samplu a phrofi—

- (a) rhaid i'r gwaith gael ei gyflawni gan arolygydd neu, pan fo'n briodol, gan y cyflenwr yn unol â'r protocol priodol;
- (b) mewn perthynas â fîrysau, fîroidau a chlefydau sy'n debyg i fîrysau a ffytoplasmau, drwy ddull mynegeio biolegol ar blanhigion dangosol, neu drwy'r cyfryw ddull arall y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn ddibynadwy;
- (c) rhaid cynnal y gwaith hwnnw—
 - (i) yn ystod y cyfnod mwyaf priodol o'r flwyddyn, gan gymryd i ystyriaeth yr amodau hinsoddol ac amodau tyfu'r planhigyn, a bioleg y plâu sy'n berthnasol i'r planhigyn hwnnw;

- (c) appropriate measures are taken to prevent infection of the plants and material by aerial vectors, root contact, cross infection by machinery, grafting tools or any other possible source.

(3) Pre-basic mother plants and pre-basic material—

- (a) may be maintained by cryopreservation; and
- (b) may only be used for a period calculated on the basis of the stability of the variety or the environmental conditions under which they are grown and any other determinants having an impact on the stability of the variety.

Health requirements: candidate pre-basic mother plants and pre-basic mother plants produced by renewal

9.—(1) A candidate pre-basic mother plant and a pre-basic mother plant produced by renewal must be free from the pests listed in Annex I and Annex II to Directive 2014/98/EU, as regards the genus or species concerned.

(2) This is established—

- (a) for pests listed in Annex I to Directive 2014/98/EU, by visual inspection and, in cases of doubt concerning the presence of those pests, by sampling and testing;
- (b) for pests listed in Annex II to Directive 2014/98/EU, by visual inspection and sampling and testing.

(3) Subject to sub-paragraph (4), sampling and testing—

- (a) must be carried out by an inspector or, where appropriate, the supplier in accordance with the appropriate protocol;
- (b) in relation to viruses, viroids, virus-like diseases and phytoplasmas, is by means of biological indexing on indicator plants, or such other method the Welsh Ministers consider to be as reliable;
- (c) must take place—
 - (i) in the most appropriate period of the year taking into account the climatic conditions and the growing conditions of the plant, and the biology of the pests relevant for that plant;

- (ii) mewn achosion pan fo amheuaeth ynghylch presenoldeb y plâu hynny, ar unrhyw adeg o'r flwyddyn.

(4) Pan fo planhigyn tarddiol cyn-sylfaenol sy'n destun cais yn eginblanhigyn, nid yw arolygiadau gweledol a gwaith samplu a phrofi ond yn ofynnol mewn cysylltiad â'r firysau, y firoidau neu'r clefydau sy'n debyg i firysau a restrir yn Atodiad II i Gyfarwyddeb 2014/98/EU, o ran y genws neu'r rhywogaeth o dan sylw, a drosglwyddir gan baill—

- (a) os yw arolygiad swyddogol yn cadarnhau y tyfwyd yr eginblanhigyn o hedyn a gynhyrchwyd gan blanhigyn sy'n rhydd rhag symptomau a achosir gan y firysau, y firoidau a'r clefydau hynny sy'n debyg i firysau;
- (b) os yw'r eginblanhigyn wedi ei gynnal yn unol â pharagraff 8.

Gofynion iechyd: deunyddiau cyn-sylfaenol a phlanhigion tarddiol cyn-sylfaenol

10.—(1) Rhaid i blanhigion tarddiol cyn-sylfaenol neu ddeunyddiau cyn-sylfaenol fod yn rhydd rhag y plâu a restrir yn Rhan A o Atodiad I ac yn Atodiad II i Gyfarwyddeb 2014/98/EU, o ran y genws neu'r rhywogaeth o dan sylw.

(2) Ni chaiff y ganran o blanhigion tarddiol cyn-sylfaenol neu ddeunyddiau cyn-sylfaenol a heintiwyd gan y plâu a restrir yn y tabl yn Rhan B o Atodiad I i Gyfarwyddeb 2014/98/EU fod yn uwch na'r lefelau goddefiant a nodir yng ngholofn berthnasol y tabl hwnnw.

(3) Ond nid yw is-baragraffau (1) a (2) yn gymwys i blanhigion tarddiol cyn-sylfaenol neu ddeunyddiau cyn-sylfaenol yn ystod rhewgadw.

(4) Caiff cydymffurfedd ag is-baragraffau (1) a (2) ei gadarnhau drwy arolygiad gweledol ac, mewn achosion pan fo amheuaeth ynghylch presenoldeb y plâu hynny, drwy waith samplu a phrofi.

(5) Rhaid cynnal arolygiadau gweledol a gwaith samplu a phrofi yn unol ag Atodiad IV i Gyfarwyddeb 2014/98/EU, o ran y genws neu'r rhywogaeth o dan sylw ac, yn achos gwaith samplu a phrofi, yn unol â'r protocol priodol hefyd.

Gofynion pridd: deunyddiau cyn-sylfaenol

11.—(1) Rhaid tyfu planhigion tarddiol cyn-sylfaenol a deunyddiau cyn-sylfaenol mewn pridd sy'n rhydd rhag unrhyw blâu a restrir yn Atodiad III i Gyfarwyddeb 2014/98/EU sy'n berthnasol i'r genws neu'r rhywogaeth o dan sylw ac sy'n lletya firysau sy'n effeithio ar y genws hwnnw neu'r rhywogaeth honno.

- (ii) in case of doubts concerning the presence of those pests, at any time of the year.

(4) Where a candidate pre-basic mother plant is a seedling, visual inspection and sampling and testing is only required in respect of the viruses, viroids or virus-like diseases listed in Annex II to Directive 2014/98/EU, as regards the genus or species concerned, that are transmitted by pollen if—

- (a) an official inspection confirms the seedling was grown from a seed produced by a plant free from symptoms caused by those viruses, viroids and virus-like diseases;
- (b) the seedling has been maintained in accordance with paragraph 8.

Health requirements: pre-basic material and pre-basic mother plants

10.—(1) A pre-basic mother plant or pre-basic material must be free from the pests listed in Part A of Annex I and in Annex II to Directive 2014/98/EU, as regards the genus or species concerned.

(2) The percentage of pre-basic mother plants or pre-basic material infested by the pests listed in the table in Part B of Annex I to Directive 2014/98/EU, must not exceed the tolerance levels set out in the relevant column of that table.

(3) But sub-paragraphs (1) and (2) do not apply to pre-basic mother plants or pre-basic material during cryopreservation.

(4) Compliance with sub-paragraphs (1) and (2) is established by visual inspection and, in cases of doubt concerning the presence of those pests, by sampling and testing.

(5) Visual inspections and sampling and testing must be conducted in accordance with Annex IV to Directive 2014/98/EU, as regards the genus or species concerned and, in the case of sampling and testing, also in accordance with the appropriate protocol.

Soil requirements; pre-basic material

11.—(1) Pre-basic mother plants and pre-basic material must be grown in soil that is free from any of the pests listed in Annex III to Directive 2014/98/EU relevant to the genus or species concerned and which host viruses affecting that genus or species.

(2) Rhaid cadarnhau eu bod yn rhydd rhag y cyfryw blâu drwy waith samplu a phrofi gan arolygydd a, phan fo'n briodol, y cyflenwr.

(3) Rhaid cyflawni gwaith samplu a phrofi—

- (a) cyn plannu'r planhigion tarddiol cyn-sylfaenol neu'r deunyddiau cyn-sylfaenol, a rhaid ail wneud y gwaith hwnnw yn ystod twf pan fo amheuaeth ynghylch presenoldeb y plâu y cyfeirir atynt yn is-baragraff (1);
- (b) gan gymryd i ystyriaeth yr amodau hinsoddol a bioleg y plâu a restrir yn Atodiad III i Gyfarwyddeb 2014/98/EU, a phan fo'r plâu hynny yn berthnasol i'r planhigion tarddiol cyn-sylfaenol neu'r deunyddiau cyn-sylfaenol o dan sylw;
- (c) yn unol â'r protocol priodol.

(4) Nid yw gwaith samplu a phrofi yn ofynnol—

- (a) pan na fo planhigion, sy'n lletya'r plâu a restrir yn Atodiad III i Gyfarwyddeb 2014/98/EU ar gyfer y genws neu'r rhywogaeth o dan sylw, wedi eu tyfu yn y pridd cynhyrchu am gyfnod o bum mlynedd o leiaf a phan na fo amheuaeth ynghylch absenoldeb y plâu perthnasol yn y pridd hwnnw;
- (b) pan fo arolygydd yn dod i'r casgliad, ar sail arolygiad swyddogol, fod y pridd yn rhydd rhag unrhyw blâu a restrir yn Atodiad III i Gyfarwyddeb 2014/98/EU, ar gyfer y genws neu'r rhywogaeth o dan sylw, ac sy'n lletya firsau sy'n effeithio ar y genws hwnnw neu'r rhywogaeth honno.

Gofynion ynghylch diffygion sy'n debygol o amharu ar ansawdd

12.—(1) Rhaid canfod bod planhigion tarddiol cyn-sylfaenol a deunyddiau cyn-sylfaenol yn rhydd rhag diffygion i bob pwrpas ar sail arolygiad gweledol.

(2) Rhaid i'r arolygiad gweledol hwnnw gael ei gyflawni gan arolygydd a, phan fo'n briodol, y cyflenwr.

Gofynion ynghylch llusoi, adnewyddu a lluosogi planhigion tarddiol cyn-sylfaenol

13.—(1) Caiff cyflenwr luosi neu adnewyddu planhigyn tarddiol cyn-sylfaenol a dderbynnir yn unol â pharagraff 5.

(2) Caiff cyflenwr luosogi planhigion tarddiol cyn-sylfaenol i gynhyrchu deunyddiau cyn-sylfaenol.

(3) Rhaid llusoi, adnewyddu a lluosogi (gan gynnwys microlluosogi) planhigion tarddiol cyn-sylfaenol yn unol â'r protocol priodol.

(2) Freedom from such pests must be established by sampling and testing by an inspector and, where appropriate, the supplier.

(3) Sampling and testing must be carried out—

- (a) before the pre-basic mother plants or the pre-basic material is planted, and must be repeated during growth where there is suspicion concerning the presence of the pests referred to in sub-paragraph (1);
- (b) taking into account the climatic conditions and the biology of the pests listed in Annex III to Directive 2014/98/EU, and where those pests are relevant for the pre-basic mother plants or the pre-basic material concerned;
- (c) in accordance with the appropriate protocol.

(4) Sampling and testing is not required—

- (a) where plants, which are hosts for the pests listed in Annex III to Directive 2014/98/EU for the genus or species concerned, have not been grown in the soil of production for a period of at least five years and where there is no doubt concerning the absence of the relevant pests in that soil;
- (b) where an inspector concludes, on the basis of an official inspection, that the soil is free from any pests which are listed in Annex III to Directive 2014/98/EU, for the genus or species concerned, and which host viruses affecting that genus or species.

Requirements concerning defects likely to impair quality

12.—(1) Pre-basic mother plants and pre-basic material must be found to be practically free from defects on the basis of visual inspection.

(2) That visual inspection must be carried out by an inspector and, where appropriate, the supplier.

Requirements concerning multiplication, renewal and propagation of pre-basic mother plants

13.—(1) A supplier may multiply or renew a pre-basic mother plant accepted in accordance with paragraph 5.

(2) A supplier may propagate a pre-basic mother plant to produce pre-basic material.

(3) Multiplication, renewal and propagation (including micropropagation) of pre-basic mother plants must take place in accordance with the appropriate protocol.

(4) Yn achos microluosogi, rhaid i'r protocol priodol fod wedi ei brofi ar y genws perthnasol neu'r rhywogaeth berthnasol am gyfnod o amser a ystyrir yn ddigonol i alluogi gwirio ffenoteip y planhigion o ran gwirdeiprwydd yr amrywogaeth mewn perthynas â'r disgrifiad ohoni ar sail arsylwi ar gynhyrchiant ffrwythau neu ddatblygiad llystyfol y gwreiddgyffion.

(5) Ni chaiff cyflenwr ond adnewyddu planhigyn tarddiol cyn-sylfaenol cyn diwedd y cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff 8(3)(b).

RHAN 3

Ardystio deunyddiau sylfaenol

Deunyddiau lluosogi (ac eithrio planhigion tarddiol sylfaenol a gwreiddgyffion nad ydynt yn perthyn i amrywogaeth)

14.—(1) Caniateir ardystio deunyddiau lluosogi (ac eithrio planhigion tarddiol sylfaenol a gwreiddgyffion nad ydynt yn perthyn i amrywogaeth) yn ddeunyddiau sylfaenol os yw'r deunyddiau hynny yn bodloni'r gofynion yn is-baragraff (2).

(2) Y gofynion yw bod y deunyddiau lluosogi—

- (a) yn cael eu lluosogi o blanhigyn tarddiol sylfaenol—
 - (i) a dyfir o ddeunyddiau cyn-sylfaenol;
 - (ii) a gynhyrchir drwy luosi o blanhigyn tarddiol sylfaenol yn unol â pharagraff 19;
- (b) yn cael eu gwirhau o ran eu gwirdeiprwydd mewn perthynas â'r disgrifiad o'u hamrywogaeth gan arolygydd yn unol â pharagraff 7;
- (c) yn cydymffurfio â'r cyfnod o amser a bennir ym mharagraff 8(3)(b);
- (d) yn cydymffurfio â pharagraff 12 o ran diffygion;
- (e) yn cydymffurfio â'r gofynion iechyd ym mharagraff 16;
- (f) yn cael eu tyfu mewn pridd y canfyddir, drwy waith samplu a phrofi, ei fod yn cydymffurfio â pharagraff 17;
- (g) wedi eu cynnal yn unol â pharagraff 18; a
- (h) pan fo'n briodol, wedi eu lluosogi yn unol â pharagraff 19.

(4) In the case of micropropagation, the appropriate protocol must have been tested on the relevant genus or species for a period of time considered sufficient to allow phenotype validation of the plants as regards the trueness to the description of the variety based on the observation of the fruit production or of the vegetative development of rootstocks.

(5) A supplier may only renew a pre-basic mother plant before the end of the period referred to in paragraph 8(3)(b).

PART 3

Certification of basic material

Propagating material (other than basic mother plants and rootstocks not belonging to a variety)

14.—(1) Propagating material (other than basic mother plants and rootstocks not belonging to a variety) may be certified as basic material if that material meets the requirements in sub-paragraph (2).

(2) The requirements are that the propagating material—

- (a) is propagated from a basic mother plant—
 - (i) grown from pre-basic material;
 - (ii) produced by multiplication from a basic mother plant in accordance with paragraph 19;
- (b) is verified by an inspector as being true to the description of its variety in accordance with paragraph 7;
- (c) complies with the time period specified in paragraph 8(3)(b);
- (d) complies with paragraph 12 concerning defects;
- (e) complies with the health requirements in paragraph 16;
- (f) is grown in soil that is found, by sampling and testing, to comply with paragraph 17;
- (g) has been maintained in accordance with paragraph 18; and
- (h) where appropriate, has been multiplied in accordance with paragraph 19.

(3) At ddiben y paragraff hwn, mae unrhyw gyfeiriad at blanhigion tarddiol cyn-sylfaenol neu ddeunyddiau cyn-sylfaenol yn y paragraffau a grybwyllir yn is-baragraff (2)(b) i (h) i'w ddehongli fel cyfeiriad at blanhigion tarddiol sylfaenol neu ddeunyddiau sylfaenol, yn ôl y digwydd.

(4) Pan na fo'r planhigyn tarddiol neu'r deunyddiau yn bodloni'r gofynion y cyfeirir atynt yn is-baragraff (2) mwyach—

- (a) rhaid i'r cyflenwr symud y planhigyn tarddiol neu'r deunyddiau ymaith o gyffiniau planhigion tarddiol sylfaenol eraill a deunyddiau sylfaenol eraill;
- (b) caiff y cyflenwr gymryd camau priodol i sicrhau bod y planhigyn tarddiol neu'r deunyddiau yn cydymffurfio â'r gofynion hynny eto.

(5) Caiff cyflenwr ddefnyddio unrhyw blanhigyn tarddiol neu ddeunyddiau a symudir ymaith yn unol ag is-baragraff (4)(a) fel deunyddiau ardystiedig neu ddeunyddiau CAC ar yr amod bod y planhigyn tarddiol neu'r deunyddiau yn bodloni'r gofynion a nodir yn y Rheoliadau hyn ar gyfer y categorïau priodol.

Gwreiddgyff nad yw'n perthyn i amrywogaeth

15.—(1) Caniateir ardystio gwreiddgyff nad yw'n perthyn i amrywogaeth yn ddeunyddiau sylfaenol os yw'n bodloni'r gofynion yn is-baragraff (2).

(2) Y gofynion yw bod y gwreiddgyff—

- (a) yn wirdeip mewn perthynas â'r disgrifiad o'i rywogaeth;
- (b) yn cael ei nodi'n unigol drwy gydol y broses gynhyrchu;
- (c) yn cydymffurfio â'r cyfnod o amser a bennir ym mharagraff 8(3)(b);
- (d) yn cydymffurfio â pharagraff 12 o ran diffygion;
- (e) yn cydymffurfio â'r gofynion iechyd ym mharagraff 16;
- (f) yn cael ei dyfu mewn pridd y canfyddir, drwy waith samplu a phrofi, ei fod yn cydymffurfio â pharagraff 17;
- (g) wedi ei gynnal yn unol â pharagraff 18; a
- (h) pan fo'n briodol, wedi ei luosi yn unol â pharagraff 19.

(3) For the purpose of this paragraph, any reference to pre-basic mother plants or to pre-basic material in the paragraphs mentioned in sub-paragraph (2)(b) to (h) is to be construed as reference to basic mother plants or basic material, as the case may be.

(4) Where the mother plant or material no longer fulfils the requirements referred to in sub-paragraph (2), the supplier—

- (a) must remove the mother plant or material from the vicinity of other basic mother plants and basic material;
- (b) may take appropriate measures in order to ensure that the mother plant or the material complies with those requirements again.

(5) A supplier may use any mother plant or material removed in accordance with sub-paragraph (4)(a) as certified or CAC material provided the mother plant or material fulfils the requirements set out in these Regulations for the respective categories.

Rootstock not belonging to a variety

15.—(1) A rootstock not belonging to a variety may be certified as basic material if it meets the requirements in sub-paragraph (2).

(2) The requirements are that the rootstock—

- (a) is true to the description of its species;
- (b) is individually identified throughout the production process;
- (c) complies with the time period specified in paragraph 8(3)(b);
- (d) complies with paragraph 12 concerning defects;
- (e) complies with the health requirements in paragraph 16;
- (f) is grown in soil that is found, by sampling and testing, to comply with paragraph 17;
- (g) has been maintained in accordance with paragraph 18; and
- (h) where appropriate, has been multiplied in accordance with paragraph 19.

(3) At ddiben y paragraff hwn, mae unrhyw gyfeiriad at blanhigion tarddiol cyn-sylfaenol neu ddeunyddiau cyn-sylfaenol yn y paragraffau a grybwyllir yn is-baragraff (2) i'w ddehongli fel cyfeiriad at blanhigion tarddiol sylfaenol neu ddeunyddiau sylfaenol, yn ôl y digwydd.

(4) Pan fo gwreiddgyff nad yw'n perthyn i amrywogaeth yn blanhigyn tarddiol sylfaenol neu'n ddeunyddiau sylfaenol nad yw'n bodloni gofynion is-baragraff (2) mwyach—

- (a) rhaid i'r cyflenwr symud y gwreiddgyff ymaith o gyffiniau planhigion tarddiol sylfaenol eraill a deunyddiau sylfaenol eraill;
- (b) caiff y cyflenwr gymryd camau priodol i sicrhau bod y gwreiddgyff yn cydymffurfio â'r gofynion hynny eto.

(5) Caiff cyflenwr ddefnyddio unrhyw wreiddgyff a symudir ymaith yn unol ag is-baragraff (4)(a) fel deunyddiau ardystiedig neu ddeunyddiau CAC ar yr amod bod y gwreiddgyff yn bodloni'r gofynion a nodir yn y Rheoliadau hyn ar gyfer y categorïau priodol.

Gofynion iechyd: planhigion tarddiol sylfaenol neu ddeunyddiau sylfaenol

16.—(1) Rhaid i blanhigyn tarddiol sylfaenol neu ddeunyddiau sylfaenol fod yn rhydd rhag y plâu a restrir yn Rhan A o Atodiad I ac yn Atodiad II i Gyfarwyddeb 2014/98/EU, o ran y genws neu'r rhywogaeth o dan sylw.

(2) Ni chaiff y ganran o blanhigion tarddiol sylfaenol neu ddeunyddiau sylfaenol a heintiwyd gan y plâu a restrir yn y tabl Rhan B o Atodiad I i Gyfarwyddeb 2014/98/EU fod yn uwch na'r lefelau goddefiant a nodir yng ngholofn berthnasol y tabl hwnnw.

(3) Ond nid yw is-baragraffau (1) a (2) yn gymwys i blanhigion tarddiol sylfaenol neu ddeunyddiau sylfaenol yn ystod rhewgadw.

(4) Caiff cydymffurfedd ag is-baragraffau (1) a (2) ei gadarnhau drwy arolygiad gweledol o'r cyfleusterau, y meysydd a, phan fo'n briodol, y lotiau ac, mewn achosion pan fo amheuaeth ynghylch presenoldeb y plâu hynny, drwy waith samplu a phrofi gan arolygydd a, phan fo'n briodol, y cyflenwr.

(5) Rhaid cynnal arolygiadau gweledol a gwaith samplu a phrofi yn unol ag Atodiad IV i Gyfarwyddeb 2014/98/EU, o ran y genws neu'r rhywogaeth o dan sylw ac, yn achos gwaith samplu a phrofi, yn unol â'r protocol priodol hefyd.

(3) For the purpose of this paragraph, any reference to pre-basic mother plants or pre-basic material in the paragraphs mentioned in sub-paragraph (2) is to be construed as reference to basic mother plants or basic material, as the case may be.

(4) Where a rootstock not belonging to a variety is a basic mother plant or basic material that no longer fulfils the requirements of sub-paragraph (2) the supplier—

- (a) must remove the rootstock from the vicinity of other basic mother plants and basic material;
- (b) may take appropriate measures in order to ensure the rootstock complies with those requirements again.

(5) A supplier may use any rootstock removed in accordance with sub-paragraph (4)(a) as certified or CAC material provided the rootstock fulfils the requirements set out in these Regulations for the respective categories.

Health requirements: basic mother plant or basic material

16.—(1) A basic mother plant or basic material must be free from the pests listed in Part A of Annex I and in Annex II to Directive 2014/98/EU, as regards the genus or species concerned.

(2) The percentage of basic mother plants or basic material infested by the pests listed in the table in Part B of Annex I to Directive 2014/98/EU, must not exceed the tolerance levels set out in the relevant column of that table.

(3) But sub-paragraphs (1) and (2) do not apply to basic mother plants or basic material during cryopreservation.

(4) Compliance with sub-paragraphs (1) and (2) is established by visual inspection of the facilities, fields and, where appropriate, lots and, in case of doubts concerning the presence of those pests, by sampling and testing by an inspector and, where appropriate, the supplier.

(5) Visual inspections and sampling and testing must be conducted in accordance with Annex IV to Directive 2014/98/EU, as regards the genus or species concerned and, in the case of sampling and testing, also in accordance with the appropriate protocol.

Gofynion pridd: deunyddiau sylfaenol

17.—(1) Ni chaniateir tyfu planhigion tarddiol sylfaenol a deunyddiau sylfaenol ac eithrio mewn pridd sy'n rhydd rhag unrhyw blâu a restrir yn Atodiad III i Gyfarwyddeb 2014/98/EU sy'n berthnasol i'r genws neu'r rhywogaeth o dan sylw ac sy'n lletya firysau sy'n effeithio ar y genws hwnnw neu'r rhywogaeth honno.

(2) Rhaid cadarnhau eu bod yn rhydd rhag y cyfryw blâu drwy waith samplu a phrofi gan arolygydd a, phan fo'n briodol, gan gyflenwr.

(3) Rhaid i waith samplu a phrofi gael ei gyflawni—

- (a) cyn plannu'r planhigion tarddiol sylfaenol neu'r deunyddiau sylfaenol, a rhaid ail wneud y gwaith yn ystod twf pan fo amheuaeth ynghylch presenoldeb y plâu y cyfeirir atynt yn is-baragraff (1);
- (b) gan gymryd i ystyriaeth yr amodau hinsoddol a bioleg y plâu a restrir yn Atodiad III i Gyfarwyddeb 2014/98/EU, a phan fo'r plâu hynny yn berthnasol i'r planhigion tarddiol sylfaenol neu'r deunyddiau sylfaenol o dan sylw;
- (c) yn unol â'r protocol priodol.

(4) Nid oes angen cyflawni gwaith samplu a phrofi—

- (a) pan na fo planhigion, sy'n lletya'r plâu a restrir yn Atodiad III i Gyfarwyddeb 2014/98/EU ar gyfer y genws neu'r rhywogaeth o dan sylw, wedi eu tyfu yn y pridd cynhyrchu am gyfnod o bum mlynedd o leiaf a phan na fo amheuaeth ynghylch absenoldeb y plâu perthnasol yn y pridd hwnnw;
- (b) pan fo arolygydd yn dod i'r casgliad, ar sail arolygiad swyddogol, fod y pridd yn rhydd rhag unrhyw blâu a restrir yn Atodiad III i Gyfarwyddeb 2014/98/EU, ar gyfer y genws neu'r rhywogaeth o dan sylw, ac sy'n lletya firysau sy'n effeithio ar y genws hwnnw neu'r rhywogaeth honno.

Gofynion cynnal: planhigion tarddiol sylfaenol a deunyddiau sylfaenol

18. Rhaid cynnal planhigion tarddiol sylfaenol a deunyddiau sylfaenol mewn meysydd sydd wedi eu hynysu'n bell oddi wrth ffynonellau heintio posibl, gan gynnwys fectorau a gludir yn yr awyr, dod i gyffyrddiad â gwreiddiau planhigyn arall, croesheintio gan beiriannau, offer impio ac unrhyw ffynhonnell bosibl arall.

Soil requirements; basic material

17.—(1) Basic mother plants and basic material may only be grown in soil that is free from any pests which are listed in Annex III of Directive 2014/98/EU relevant to the genus or species concerned and which host viruses affecting that genus or species.

(2) Freedom from such pests must be established by sampling and testing by an inspector and, where appropriate, a supplier.

(3) Sampling and testing must be carried out—

- (a) before the basic mother plants or the basic material is planted, and must be repeated during growth where there is suspicion concerning the presence of the pests referred to in sub-paragraph (1);
- (b) taking into account the climatic conditions and the biology of the pests listed in Annex III to Directive 2014/98/EU, and where those pests are relevant for the basic mother plants or the basic material concerned;
- (c) in accordance with the appropriate protocol.

(4) Sampling and testing need not be carried out—

- (a) where plants, which are hosts for the pests listed in Annex III to Directive 2014/98/EU for the genus or species concerned, have not been grown in the soil of production for a period of at least five years and where there is no doubt concerning the absence of the relevant pests in that soil;
- (b) where an inspector concludes on the basis of an official inspection that the soil is free from any pests which are listed in Annex III to Directive 2014/98/EU, for the genus or species concerned, and which host viruses affecting that genus or species.

Maintenance requirements: basic mother plants and basic material

18. Basic mother plants and basic material must be maintained in fields isolated by distance from potential sources of infection including aerial vectors, root contact, cross infection by machinery, grafting tools and any other possible sources.

Amodau llusoi: planhigion tarddiol sylfaenol

19.—(1) Caniateir llusoi planhigion tarddiol sylfaenol a dyfir o ddeunyddiau cyn-sylfaenol mewn nifer o genedliadau er mwyn cael y nifer angenrheidiol o blanhigion tarddiol sylfaenol yn unol â'r paragraff hwn.

(2) Rhaid gwneud unrhyw luosi o blanhigion tarddiol sylfaenol o dan is-baragraff (1) yn unol â pharagraff 13 ac, at ddibenion yr is-baragraff hwn, mae cyfeiriad at blanhigyn tarddiol cyn-sylfaenol ym mharagraff 13 i'w ddehongli fel cyfeiriad at blanhigyn tarddiol sylfaenol.

(3) Ni chaiff y nifer uchaf o genedliadau a ganiateir, na'r hyd oes hwyaf a ganiateir ar gyfer planhigyn tarddiol sylfaenol, fod yn uwch na'r terfynau a bennir yn Atodlen V i Gyfarwyddeb 2014/98/EU ar gyfer y genera neu'r rhywogaethau perthnasol.

(4) Pan ganiateir cenedliadau lluosog o blanhigion tarddiol sylfaenol, caiff pob cenedliad, ac eithrio'r cyntaf, ddeillio o unrhyw genhedliad blaenorol.

(5) Rhaid cadw deunyddiau lluosogi o genedliadau gwahanol ar wahân.

RHAN 4

Ardystio deunyddiau ardystiedig

Deunyddiau lluosogi (ac eithrio planhigion tarddiol) a phlanhigion ffrwythau

20.—(1) Caniateir ardystio deunyddiau lluosogi (ac eithrio planhigion tarddiol) a phlanhigion ffrwythau yn ddeunyddiau ardystiedig os yw'r deunyddiau lluosogi neu'r planhigion ffrwythau yn bodloni'r gofynion yn is-baragraff (2).

(2) Y gofynion yw bod y deunyddiau lluosogi neu'r planhigion ffrwythau—

- (a) yn cael eu tyfu o blanhigion tarddiol ardystiedig a dyfir o ddeunyddiau cyn-sylfaenol neu ddeunyddiau sylfaenol;
- (b) yn cael eu gwirhau o ran eu gwirdeiprwydd mewn perthynas â'r disgrifiad o'u hamrywogaeth gan arolygydd yn unol â pharagraff 7;
- (c) yn cydymffurfio â'r cyfnod o amser a bennir ym mharagraff 8(3)(b);
- (d) yn cydymffurfio â pharagraff 12 o ran diffygion;
- (e) yn cydymffurfio â'r gofynion iechyd ym mharagraff 22; ac

Conditions for multiplication: basic mother plants

19.—(1) Basic mother plants grown from pre-basic material may be multiplied in a number of generations to obtain the necessary number of basic mother plants in accordance with this paragraph.

(2) Any multiplication of a basic mother plant under sub-paragraph (1) must be done in accordance with paragraph 13 and, for the purposes of this sub-paragraph, a reference to a pre-basic mother plant in paragraph 13 is to be construed as reference to a basic mother plant.

(3) The maximum permitted number of generations, and the maximum permitted life span of a basic mother plant must not exceed the limits set out in Annex V to Directive 2014/98/EU for the relevant genera or species.

(4) Where multiple generations of basic mother plants are permitted, each generation, other than the first one, may derive from any previous generation.

(5) Propagating material of different generations must be kept separate.

PART 4

Certification of certified material

Propagating material (other than mother plants) and fruit plants

20.—(1) Propagating material (other than mother plants) and fruit plants may be certified as certified material if the propagating material or fruit plant meets the requirements in sub-paragraph (2).

(2) The requirements are that the propagating material or fruit plant—

- (a) is grown from a certified mother plant grown from pre-basic or basic material;
- (b) is verified by an inspector as being true to the description of its variety in accordance with paragraph 7;
- (c) complies with the time period specified in paragraph 8(3)(b);
- (d) complies with paragraph 12 concerning defects;
- (e) complies with the health requirements in paragraph 22; and

(f) yn cael eu tyfu mewn pridd y canfyddir, drwy waith samplu a phrofi, ei fod yn cydymffurfio â pharagraff 23.

(3) At ddiben y paragraff hwn, mae unrhyw gyfeiriad at blanhigion tarddiol cyn-sylfaenol neu ddeunyddiau cyn-sylfaenol yn y paragraffau a grybwyllir yn is-baragraff (2) i'w ddehongli fel cyfeiriad at blanhigion tarddiol ardystiedig neu ddeunyddiau ardystiedig, yn ôl y digwydd.

(4) Pan na fo planhigyn tarddiol ardystiedig neu ddeunyddiau ardystiedig yn bodloni'r gofynion y cyfeirir atynt yn is-baragraff (2)(b) i (f) mwyach—

(a) rhaid i'r cyflenwr symud y planhigyn tarddiol neu'r deunyddiau ymaith o gyffiniau planhigion tarddiol ardystiedig eraill a deunyddiau ardystiedig eraill;

(b) caiff y cyflenwr gymryd camau priodol i sicrhau bod y planhigyn tarddiol neu'r deunyddiau yn cydymffurfio â'r gofynion hynny eto.

(5) Caiff cyflenwr ddefnyddio unrhyw blanhigyn tarddiol neu ddeunyddiau a symudir ymaith yn unol ag is-baragraff (4)(a) fel deunyddiau CAC ar yr amod bod y planhigyn tarddiol neu'r deunyddiau yn bodloni'r gofynion a nodir yn Atodlen 1 ar gyfer deunyddiau CAC.

Gwreiddgyff nad yw'n perthyn i amrywogaeth

21.—(1) Caniateir ardystio gwreiddgyff nad yw'n perthyn i amrywogaeth yn ddeunydd ardystiedig os yw'n bodloni'r gofynion yn is-baragraff (2).

(2) Y gofynion yw bod y gwreiddgyff—

(a) yn cael ei dyfu o blanhigyn tarddiol ardystiedig a dyfwyd o ddeunyddiau cyn-sylfaenol neu ddeunyddiau sylfaenol;

(b) yn cydymffurfio â'r cyfnod o amser a bennir ym mharagraff 8(3)(b);

(c) yn cydymffurfio â pharagraff 12 o ran diffygion;

(d) yn cydymffurfio â'r gofynion iechyd ym mharagraff 22; ac

(e) yn cael ei dyfu mewn pridd y canfyddir, drwy waith samplu a phrofi, ei fod yn cydymffurfio â pharagraff 23.

(3) At ddibenion y paragraff hwn, mae unrhyw gyfeiriad at blanhigion tarddiol cyn-sylfaenol neu ddeunyddiau cyn-sylfaenol yn y paragraffau a grybwyllir yn is-baragraff (2) i'w ddehongli fel cyfeiriad at blanhigion tarddiol ardystiedig neu ddeunyddiau ardystiedig, yn ôl y digwydd.

(f) is grown in soil that is found, by sampling and testing, to comply with paragraph 23.

(3) For the purpose of this paragraph, any reference to pre-basic mother plants or pre-basic material in the paragraphs mentioned in sub-paragraph (2) is to be construed as reference to certified mother plants or certified material, as the case may be.

(4) Where a certified mother plant or certified material no longer fulfils the requirements referred to in sub-paragraph (2)(b) to (f), the supplier—

(a) must remove the mother plant or material from the vicinity of other certified mother plants and certified material;

(b) may take appropriate measures in order to ensure that the mother plant or the material complies with those requirements again.

(5) A supplier may use any mother plant or material removed in accordance with sub-paragraph (4)(a) as CAC material provided the mother plant or material fulfils the requirements set out in Schedule 1 for CAC material.

Rootstock not belonging to a variety

21.—(1) A rootstock not belonging to a variety may be certified as certified material if it meets the requirements in sub-paragraph (2).

(2) The requirements are that the rootstock—

(a) is grown from a certified mother plant grown from pre-basic or basic material;

(b) complies with the time period specified in paragraph 8(3)(b);

(c) complies with paragraph 12 concerning defects;

(d) complies with the health requirements in paragraph 22; and

(e) is grown in soil that is found, by sampling and testing, to comply with paragraph 23.

(3) For the purpose of this paragraph, any reference to pre-basic mother plants or pre-basic material in the paragraphs mentioned in sub-paragraph (2) is to be construed as reference to certified mother plants or certified material, as the case may be.

(4) Pan fo gwreiddgyff nad yw'n perthyn i amrywogaeth yn blanhigyn tarddiol ardystiedig neu'n ddeunyddiau ardystiedig nad yw'n bodloni'r gofynion y cyfeirir atynt yn is-baragraff (2) mwyach—

- (a) rhaid i'r cyflenwr symud y gwreiddgyff ymaith o gyffiniau planhigion tarddiol ardystiedig eraill a deunyddiau ardystiedig eraill;
- (b) caiff y cyflenwr gymryd camau priodol i sicrhau bod y gwreiddgyff yn cydymffurfio â'r gofynion hynny eto.

(5) Caiff cyflenwr ddefnyddio unrhyw wreiddgyff a symudir ymaith yn unol ag is-baragraff (4)(a) fel deunyddiau CAC ar yr amod bod y gwreiddgyff yn bodloni'r gofynion a nodir yn Atodlen 1 ar gyfer deunyddiau CAC.

Gofynion iechyd: planhigion tarddiol ardystiedig a deunyddiau ardystiedig

22.—(1) Rhaid i blanhigyn tarddiol ardystiedig neu ddeunyddiau ardystiedig fod yn rhydd rhag y plâu a restrir yn Rhan A o Atodiad I ac yn Atodiad II i Gyfarwyddeb 2014/98/EU, o ran y genws neu'r rhywogaeth o dan sylw.

(2) Ni chaiff y ganran o blanhigion tarddiol ardystiedig neu ddeunyddiau ardystiedig a heintiwyd gan y plâu a restrir yn y tabl yn Rhan B o Atodiad I i Gyfarwyddeb 2014/98/EU fod yn uwch na'r lefelau goddefiant a nodir yng ngholofn berthnasol y tabl hwnnw.

(3) Ond nid yw is-baragraffau (1) a (2) yn gymwys i blanhigion tarddiol ardystiedig neu ddeunyddiau ardystiedig yn ystod rhewgraw.

(4) Mae arolygydd a, phan fo'n briodol, cyflenwr, yn cadarnhau cydymffurfedd ag is-baragraffau (1) a (2) drwy arolygiad gweledol o'r cyfleusterau, y meysydd a, phan fo'n briodol, y lotiau ac, mewn achosion pan fo amheuaeth ynghylch presenoldeb y plâu hynny, drwy waith samplu a phrofi.

(5) Rhaid cynnal arolygiadau gweledol a gwaith samplu a phrofi yn unol ag Atodiad IV i Gyfarwyddeb 2014/98/EU, o ran y genws neu'r rhywogaeth o dan sylw ac, yn achos gwaith samplu a phrofi, yn unol â'r protocol priodol hefyd.

Gofynion pridd: planhigion tarddiol ardystiedig a deunyddiau ardystiedig

23.—(1) Rhaid tyfu planhigion tarddiol ardystiedig a deunyddiau ardystiedig mewn pridd sy'n rhydd rhag unrhyw blâu a restrir yn Atodiad III i Gyfarwyddeb 2014/98/EU sy'n berthnasol i'r genws neu'r rhywogaeth o dan sylw ac sy'n lletya firsau sy'n effeithio ar y genws hwnnw neu'r rhywogaeth honno.

(4) Where a rootstock not belonging to a variety is a certified mother plant or certified material that no longer fulfils the requirements referred to in sub-paragraph (2), the supplier—

- (a) must remove the rootstock from the vicinity of other certified mother plants and certified material;
- (b) may take appropriate measures in order to ensure the rootstock complies with those requirements again.

(5) A supplier may use any rootstock removed in accordance with sub-paragraph (4)(a) as CAC material provided the rootstock fulfils the requirements set out in Schedule 1 for CAC material.

Health requirements: certified mother plants and material

22.—(1) A certified mother plant or certified material must be free from the pests listed in Part A of Annex I and in Annex II to Directive 2014/98/EU, as regards the genus or species concerned.

(2) The percentage of certified mother plants or certified material infested by the pests listed in the table in Part B of Annex I to Directive 2014/98/EU, must not exceed the tolerance levels set out in the relevant column of that table.

(3) But sub-paragraphs (1) and (2) do not apply to certified mother plants or certified material during cryopreservation.

(4) An inspector and, where appropriate, a supplier, establishes compliance with sub-paragraphs (1) and (2) by visual inspection of the facilities, fields and, where appropriate, lots and, in case of doubts concerning the presence of those pests, by sampling and testing.

(5) Visual inspections and sampling and testing must be conducted in accordance with Annex IV to Directive 2014/98/EU, as regards the genus or species concerned and, in the case of sampling and testing, also in accordance with the appropriate protocol.

Soil requirements; certified mother plants and material

23.—(1) Certified mother plants and certified material must be grown in soil that is free from any of the pests listed in Annex III of Directive 2014/98/EU relevant to the genus or species concerned and which host viruses affecting that genus or species.

(2) Rhaid cadarnhau eu bod yn rhydd rhag y cyfryw blâu drwy waith samplu a phrofi gan arolygydd a, phan fo'n briodol, gan gyflenwr.

(3) Rhaid cyflawni gwaith samplu a phrofi—

- (a) cyn plannu'r planhigion tarddiol ardystiedig neu'r deunyddiau ardystiedig, a rhaid ail wneud y gwaith hwnnw yn ystod twf pan fo amheuaeth ynghylch presenoldeb y cyfryw blâu;
- (b) gan gymryd i ystyriaeth yr amodau hinsoddol, bioleg y plâu, a pherthnasedd y plâu i'r planhigion tarddiol ardystiedig neu'r deunyddiau ardystiedig o dan sylw;
- (c) yn unol â'r protocol priodol.

(4) Nid yw gwaith samplu a phrofi yn ofynnol—

- (a) yn achos planhigion ffrwythau ardystiedig;
- (b) pan na fo planhigion, sy'n lletya'r plâu a restrir yn Atodiad III i Gyfarwyddeb 2014/98/EU ar gyfer y genws neu'r rhywogaeth o dan sylw, wedi eu tyfu yn y pridd cynhyrchu am gyfnod o bum mlynedd o leiaf a phan na fo amheuaeth ynghylch absenoldeb y plâu perthnasol yn y pridd hwnnw;
- (c) pan fo arolygydd yn dod i'r casgliad, ar sail arolygiad swyddogol, fod y pridd yn rhydd rhag unrhyw blâu a restrir yn Atodiad III i Gyfarwyddeb 2014/98/EU, ar gyfer y genws neu'r rhywogaeth o dan sylw, ac sy'n lletya firysau sy'n effeithio ar y genws hwnnw neu'r rhywogaeth honno.

(2) Freedom from such pests must be established by sampling and testing by an inspector and, where appropriate, a supplier.

(3) Sampling and testing must be carried out—

- (a) before the certified mother plant or the certified material is planted, and must be repeated during growth if the presence of such pests is suspected;
- (b) taking account of climatic conditions, the biology of the pests, and the relevance of the pests for the certified mother plant or the certified material concerned;
- (c) in accordance with the appropriate protocol.

(4) Sampling and testing is not required—

- (a) in the case of certified fruit plants;
- (b) where plants, which are hosts for the pests listed in Annex III to Directive 2014/98/EU for the genus or species concerned, have not been grown in the soil of production for a period of at least five years and where there is no doubt concerning the absence of the relevant pests in that soil;
- (c) where an inspector concludes, on the basis of an official inspection, that the soil is free from any pests which are listed in Annex III to Directive 2014/98/EU, for the genus or species concerned, and which host viruses affecting that genus or species.

W201706166 07/2017

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2017/691>